

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Gprffennaf 2012

Rhif 424

50c

Olympiad Bethesda



Daeth y Gemau Olympaidd i'n hardal pan, gynhaliwyd mabolgampau Ysgol Dyffryn Ogwen ar gaeau Treborth ar y cyd ag ysgolion cynradd y dalgylch ar 25 Mehefin. Mwy o'r hanes ar dudalennau'r ysgolion.

Llwyddiant yng Nglynllifon



Llwyddodd Cân Actol Ysgol Llanllechid i gael y drydedd wobwr ar y llwyfan ar Nos Lun Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon. Camp anhygoel oedd dod yn drydydd o gofio bod 13 o ysgolion yn cystadlu. Llongyfarchiadau iddynt hwy ac i bob un a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod. Mae mwy o fanylion y tu mewn i'r rhifyn

Buddsoddiad Sylweddol yn Neuadd Ogwen

Diwedd mis Mehefin, derbyniwyd y newyddion gwych fod £610,368 wedi ei ddyfarnu i Cwmni Tabernacl (Bethesda) Cyf trwy'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT), er mwyn adnewyddu Neuadd Ogwen ar y Stryd Fawr a chreu Canolfan Celfyddydau Cymunedol amblwrpas a fydd yn cynnwys sinema, theatr a chyngherddau byw, gweithgareddau treftadaeth ac oriel ar gyfer artistiaid lleol.

Partneriaeth rhwng y Gronfa Loteri Fawr a Llywodraeth Cymru yw CAT, sy'n bwriadu darparu arian cyfalaf a refeniw i gefnogi trosglwyddo asedau megis tir ac adeiladau o fudiadau sector cyhoeddus i berchnogaeth gymunedol.

Amcangyfrifir y bydd cynllun Neuadd Ogwen yn costio hyd at £1 miliwn, a bydd y cyfleuster ar ei newydd wedd hefyd yn cynnig addysgu cerddorol, dosbarthiadau drama a dawns, addysg oedolion, amrywiaeth o gyfleoedd gweithdy a swyddfeydd ar gyfer cyngor y gymuned a grwpiau cymunedol eraill.

Dywedodd Dyfrig Jones, Ysgrifennydd Cwmni Tabernacl: "Er bod angen dod o hyd i ryw £300,000 arall er mwyn gallu gwneud yr holl waith angenrheidiol, mae cael cyfraniad mor sylweddol gan y Loteri yn golygu ein bod yn hyderus y bydd modd sicrhau gweddill yr arian yn eithaf buan. O gael y cwbl yn ei le, bydd modd i ni wneud gwaith sylweddol ar y neuadd, a fydd yn ei throi yn ganolfan gelfyddydol gymunedol o'r radd flaenaf."

Beth yw eich barn chi am y cynllun? Anfonwch eich sylwadau i'r Llais!

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn ☎ 600274
dewision@btinternet.com

Fiona Cadwaladr Owen ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan ☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net

Walter W Williams ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:

André Lomozik, Zakopane,
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184

Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn oedd Dewi A. Morgan.

Golygydd mis Medi fydd Siân Esmor Rees, Gwenlais, 8 Bron Arfon, Llanllechid, LL57 3LW.01248 600427.

sian_esmor@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 5 Medi, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 20 Medi yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Gorffennaf

- 21 Bore Coffi Eglwys y Santes Fair Tregarth. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 25 Plaid Lafur Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- 27 Bingo at Radio Ysbyty Gwynedd. Canolfan Glasinfryn am 7.30.
- 28 Garddwest Tair Eglwys. Ficerdy Pentir. 1.00 – 4.00 y prynhawn.
- 28 Bore Coffi Neuadd Talgai. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 31 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.

Mis Awst

- 03 Noson yng nghwmni Lleuwen. Neuadd Ogwen am 7.00
- 04 Bore Coffi Cronfa Goffa Tracy Smith. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 11 Bore Coffi Clwb Bowlio Bethesda. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 11 Marchnad Cynnyrch Lleol. Llys Dafydd, Bethesda. 10.00 – 2.00.
- 11 Diwrnod o Hwyl ar Gae Chwarae Talybont. 11.00 y bore - 4.00 y prynhawn.
- 18 Bore Coffi Neuadd Talgai. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.

Mis Medi

- 01 Bore Coffi Gŵyl Afon Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 06 Sefydliad y Merched Carneddi. Arddangosfa gan Hufenfa De Arfon. Cefnfaes am 7.00.
- 08 Bore Coffi Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 08 Marchnad Cynnyrch Lleol. Llys Dafydd, Bethesda. 10.00 – 2.00.
- 15 Bore Coffi Eglwys St. Ann a St. Mair, Mynydd Llandygái. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 22 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 25 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.

Mis Hydref

- 19/20 Sioe Glybiau Theatr Bara Caws – “Un bach arall eto...”. Clwb Rygbi Bethesda am 7.30.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Gorffennaf

£30.00 (77) Miss J. B. Williams, 20 Lôn Ganol, Cae Tros Lôn, Porthaethwy.

£20.00 (27) Glyn Davies, Cae Glas, 8 Tal y Cae, Tregarth.

£10.00 (15) Mrs Ray Davies, 9 Heol Ifor, Caerdydd.

£5.00 (193) Mrs Bronwen H. Davies, Tyddyn Canol, Mynydd Llandygái.

Rhoddion i'r Llais

- £50.00 Er cof am Annie Griffiths, 25 Adwy'r Nant, oddi wrth Jean
- £ 5.00 Er cof am Gwilym Rees Griffith, 15 Glan Ffrydilas (a fu farw 17 Gorffennaf 2000) oddi wrth Joan a'r Plant
- £20.00 Islwyn a Val Jones, Dob, Tregarth.
- £10.00 Er cof annwyl am Dawn Cross gan Mam a'r teulu
- £ 5.00 Herbert Griffiths, 46 Bro Syr Ifor, Tregarth.
- £25.00 Mrs Margaret Williams, 6 Rhos y Coed, Bethesda.
- £10.00 Er cof am fam a nain annwyl, Eluned Morris (40 Glanogwen gynt), a fyddai wedi bod yn 90 oed ar 28 Awst - oddi wrth y teulu
- £30.00 Miss J. Beryl Williams, 20 Lôn Ganol, Cae Tros Lôn, Porthaethwy

Gair o Werthfawrogiad

Dymuna Panel Golygyddol Llais Ogwan ddiolch yn fawr i Dafydd Fôn Williams am ei gyfraniad yn ystod ei gyfnod fel un o'r golygyddion. Bydd Dafydd yn parhau i gefnogi'r papur fel trefnydd y Calendr a thrwy gynorthwyo efo'r casglu newyddion, y plygu a'r gwerthu.

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan Tasg,
Gorffwysfa, Sling, Tregarth
LL57 4RJ ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

Llythyrau

7 Winkfield Road
Windsor
Berkshire
SL4 4BA
28 Mehefin 2012

Annwyl Olygydd,

Rwy'n sicr fod llawer, fel fi, wedi mwynhau cyfraniad Dr J. Elwyn Hughes dros amser i'r Llais, dan y testun *Pwy Sy'n Cofio Ddoe?*

Tipyn o sioc i mi oedd darllen am y nifer fawr o gapeli sydd wedi cau, a'r adeiladau hefyd wedi eu chwalu. Trist, yn enwedig fel rwy'n cofio, er enghraifft, cymanfa ganu yng Nghapel Salem (Carneddi) a'r lle yn orlawn. Nosweithiau Llawen ac Eisteddfodau yn tynnu pobl o bob man! Beth oedd achos y newid?

Pan ddaeth y teledu roedd yn dal i fod yn bosibl mynd i gapel neu eglwys ddwy neu dair gwaith ar y Sul, ond unwaith yr aeth y diwrnod fel gweddill yr wythnos, mi roedd y diwedd yn dod.

Pleser mawr gen i weld fod capel Bethel (Rachub) lle yr addolwn yn dal i fod yn agored a diolch yn wir i'r Llais am adael i ni i gyd wybod beth sy'n mynd ymlaen yn y capeli a'r eglwysi sy'n dal i fod yn agored o fis i fis.

Diolch hefyd i Elwyn am y gwaith hir a chaled y mae o'n siwr o fod wedi ei wneud i ddiogelu hanes cyfnod mor bwysig ym mywyd yr ardal.

**Yr eiddoch yn gywir,
John Ffrancon Davies
(24 Maes Coetmor gynt)
01753 862599**

**Tyn-y-braich,
Dinas Mawddwy,
SY20 9LX
Ffôn 01650 531379**

Annwyl Gyfeillion,

Drwy gyfrwng eich papur hoffwn geisio mwy o wybodaeth am y teulu uchod a chysylltiadau plant Mary Evan a anwyd ym 1761. Gwyddom am hynt rhyw ddau o'i phlant ond fel arall cyfyd y cwestiwn - ble mae disgynyddion y gweddill? Mae digon o wybodaeth am y rhai arhosodd adref yma ond byddai'n ddiddorol cael mwy o hanes y gweddill. Gallaf anfon enwau plant Mary Evan a'i gŵr John Richards yn y gobaith y bydd rhywun yn rhywle a mwy o wybodaeth.

Yn gywir,

**Olwen Jobs
tynbraich@btinternet.com**

Annwyl Olygydd

Mae'n bleser gen i longyfarch yr ysgrifennydd Dyfrig Jones a phawb a fu'n rhan o gais llwyddiannus Cwmni Tabernacl (Bethesda) Cyf am arian sylweddol o Gronfa'r Loteri Fawr i adnewyddu Neuadd Ogwen. Bydd y datblygiad cyffrous hwn yng nghanol Bethesda yn hwb enfawr i'r Stryd Fawr ac yn gyfraniad pwysig i'r gymuned gyfan. Mae'n enghraifft o gydweithio cadarnhaol sy'n esiampl i unrhyw ardal wrth wynebu'r wasgfa ariannol sydd ohoni, a dymunaf bob llwyddiant i'r ymdrechion i godi gweddill yr arian ar gyfer dechrau'r gwaith ar yr adeilad.

Yn gywir

Alun Ffred Jones AC

Cystadleuaeth Gardd Fwyd Gwynedd

Mae cyfle i arddwyr o Wynedd ennill gwobr arbennig trwy dyfu ffrwythau a llysiau.

Mae Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd yn lansio Cystadleuaeth Gardd Fwyd 2012, er mwyn annog mwy o bobl i dyfu bwyd eu hunain.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i erddi sy'n cynhyrchu ffrwythau, llysiau neu berlysiâu yng Ngwynedd ar pa bynnag raddfa - o botiau ar sillff ffenestr i ddarn o dir. Eleni mae dau gatgoryn y gystadleuaeth, sef Gerddi Preifat a Gerddi Ysgolion.

Mae'r gystadleuaeth wedi ei noddi'n garedig gan Ganolfan Arddio Fron Goch, Caernarfon a bydd yr enillwyr yn derbyn tocyn anrheg gwerth £50 i'w gwario yn y ganolfan.

Gall garddwyr o bob oedran a phrofiad gymryd rhan ac mae'r trefnwyr yn arbennig o awyddus i glywed gan rai sy'n newydd i arddio. Rydym eisiau gwybod am yr amrywiaeth o gynnyrch rydych yn ei dyfu, a dysgu am eich profiadau ac unrhyw broblemau.

Cysylltwch â

PartneriaethAmgylcheddol@gwynedd.gov.uk neu ffonio 01286 679652 i ofyn am ffurflen gais neu wybodaeth bellach.

Y dyddiad cau ar gyfer ysgolion yw 17 Gorffennaf 2012 a 27 Medi 2012 ar gyfer gerddi preifat. Am fwy o wybodaeth ewch i www.pagwynedd.org neu ffonio 01286 679652.

Casgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol 2012

Y swm a gasglwyd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni oedd £4575.05

Mae ein diolch yn fawr i'r casglyddion ac i drigolion y Dyffryn am eu haclioni ac i'r rhai hynny wnaeth lenwi'r ffurflen fydd yn galluogi Cymorth Cristnogol i adennill y dreth incwm ar eu cyfraniad. Diolch hefyd i Adrian Williams am archwilio'r cyfrifon.

Mae'r swm uchod yn cynnwys £384.12, sef elw Bore Coffi Cytun Dyffryn Ogwen, rhoddion o £100.00 gan Ysgol Sul Eglwys Shiloh, Tregarth a £25 gan Eglwys Amana, Mynydd Llandygai. Hefyd derbyniwyd £3 gan Eglwys Bethel, Caellwyngrudd ar ôl i'r cyfrifon gael eu harchwilio.

Dyma fanylion y casgliadau o dŷ i dŷ at Wythnos Cymorth Cristnogol. Mae'r casgliadau wedi eu crynhoi fesul ardal gan nodi enwau'r rhai fu'n casglu. Mae'r swm rhwng cromfachau yn nodi faint gasglwyd yn 2011. Daeth 1350 (1477) o amlenni i law. Ar gyfartaledd roedd £3.01 (£2.88) ym mhob amlen.

Bethesda £1165.21 (£1127.43)
Casglyddion: Angharad Hughes, Barbara Owen, Ceri Dart, Elfed Bullock, Elizabeth Williams, Geraint Hughes, Glenys Sullivan, Heulwen Roberts, Ian Hughes, Ieuan Wyn, Janet Hughes, Joan Sturrs, Lester Bath, Rhian Roberts, Rhiannon Efans, Sioned a Medwyn Williams, Tom Morgan a Walter Williams.

Braichmelyn £198.19 (£181.84)
Casglydd: Elna Jones.

Carneddi £337.45 (£314.47)
Casglyddion: Alwen Hughes a Valmai Davies, Anwen Hughes, Doreen Jones, Elizabeth Roberts, Janet Buckle, John Owen, Karen Williams, Olwen Williams a Pat Corns.

Gerlan £249.73 (£259.49)
Casglyddion: Ann Williams, Davina Evans, Gwenda Bowen, Linda Brown, Neville Hughes a Sandra Williams.

Mynydd Llandygai, Cilgeraint a Thanysgafell £167.81 (£174.78)
Casglyddion: Alex Ball, Moira Farnworth a Nia Williams.

Rachub a Llanllechid £385.44 (£461.11)
Casglyddion: Helen Williams, Iona Robertson, Magi Bryn, Jean Hughes a Wendy Jones.

Rhiwlas £426.38 (£1489.43)
Casglyddion: Bethan Wyn Jones ac Elcri, Dilys Parry, Dyddgu Pritchard Owens, Iona Jones, John Huw Evans, Rhian Evans a Steffan Job.

Talybont a Llandygai £506.50 (£597.11)
Casglyddion: Barbara Jones, Catrin Hobson, Enid Davies a Jean Hughes.

Tregarth £629.22 (£655.29)
Casglyddion: Angharad Williams, Beryl Hughes, Bethan Crowe, Carys Williams, Catrin Doyle ac Elin a Carwyn, Einir W Jones, Eirwen Williams, Gwenda Davics, Hazel Hughes, Margaret Hughes, Menai Jones a Rosemary Williams.

Nyth y Gân

Y Telynor

Ei fwisg ddaw drwy'i fysedd o dynnu
Ar dannau tra'n cistedd;
A daw mwy o nodau medd
O ferw'r hen gyfaredd.

Cyfrinachau

Yn drwm dan gyfrinachau
Am hir uwch dŵr y llyn,
Yr awel fu am oriau
Yn siglo'r ewyn gwyn.

Cymcrodd hi flynyddocdd
I wybod am y rhain
A gweld fod lluo ohonynt
Fis Mai yn llwyni'r drain.

Wrth grwydro'r wlad ar adain
Ymwelodd â sawl gardd
I brofi sawr y rhosyn
A gweld ei ddillad hardd.

Fe glywodd gân yr adar
A'u rhyfeddodau hwy
O ddeall fod y cyfan
I'w gael dan blisgyn wŷ.

Mae'r gallu gan yr awel
I gario'r lleddf a'r llon,
A rhannu'r profiad hwnnw
Wna'n aml ar y don.

Y Sipsi

Mae'r hil yn un amryliw, a chaiff hwyll
Â cheffylau deuliw;
Dal sawl pryd o'u crud wna'r criw
Heb adlais i neb edliw.

Y Gloesen

Sŵn troedio araf greodd hi
Ymhell o flaen ein hamser ni,
A hithau'n rhan o'r tasgau trwm
Ar dyddyn bach a'i erwau llwm.

Yno'r unigryw glec a roes
Wrth hen bot llaeth mewn arall oes
Hyd wyneb glân y llechen las
Gan wreigan oedd mewn barclod bras.

Chwarelwr hefyd ar y graig
A'i gwisgodd hithau fel ei wraig
I gadw yno yn y glaw
Ei draed o afael llaid a baw.

Yn ôl haneswyr a sawl llun
Roedd plant ymysg y bobol hyn,
A rhai yn ifanc iawn eu hoed
Yn gwisgo'r hon a wnaed o goed.

Mae gwerin Cymru 'nghlwm wrth hon
Sy'n codi hiraeth dan y fron,
A'n hifanc rai sy'n clecio'n awr
Â mesur sionc hyd lwyfan fawr.

Dafydd Morris

Y Gymraeg

Hen genedl deg a unwyd - gan seiniau,
Gan synnwyr y'i magwyd;
Rhoi i'n hil furiau'r aelwyd,
Rhoi pob cainc, pob cainc a'i cwyd.

Hon yw tarddell ffynhonnau, -
o'i grisial

Goroedd ein tadau;
Hon yw dŵr heuwr yr hau,
I'n gilydd ffrwd ein golau.

Goronwy Wyn Owen

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Frydglas,
Bethesda ☎ 601902

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Menna Wyn, 6 Bryn Coetmor ar ennill doethuriaeth yn Adran Ieithoedd Modern Prifysgol Bangor.

Llongyfarchiadau mawr i Dewi Llewelyn Siôn, Erw Las ar ennill gradd B. A. mewn Cyfathrebu a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor.

Yr un yw'r dymuniad i Elen Haf Ifan, Allt Penybryn am ennill ei gradd mewn Seicoleg o'r un brifysgol. Pob hwyl i ti yn dy waith.

Ennill gradd mewn dylunio tecstilau wnaeth Sophie Parry, Rhos y Coed ym Mhrifysgol Birmingham. Wedi hynny cafodd samplau o'i gwaith eu dewis i'w harddangos yn Llundain mewn arddangosfa i ddylunwyr newydd. Llongyfarchiadau oddi wrth Mam, Dad, Thomas a'r teulu i gyd.

Yn yr ysbyty

Gwellhad buan i Elizabeth Evans (Bing) Rhos y Coed, wedi iddi gael ei chymryd yn wael yn ddiweddar.

Swyddi Newydd

Llongyfarchiadau mawr i'r efeilliaid Dr. Mathew Hughes a'i frawd Dr. Paul Hughes, gynt o Stad Coetmor. Mac'r ddau wedi derbyn swyddi newydd ym Mhrifysgol Durham.

Bydd Mathew yn dechrau yno ym mis Medi fel Darlennydd mewn Entrepreneuriaeth, ac mae Paul yn dechrau yno ganol mis Gorffennaf fel Uwch Ddarlithydd Strategaeth. Rydym yn hynod falch o'r ddau ohonynt.

Cartrefi newydd

Croeso i'w cartrefi newydd i Mr a Mrs Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Mrs Rene Parry, Maesygarneidd a Mr John Williams a Delyth, Arafa Don.

Hen Nain

Llongyfarchiadau i Mrs Glenys Jones, Adwy'r Nant ar yr achlysur hapus o ddod yn hen nain i Joshua. Da deall fod Joshua yn gwella a'i fod gartref erbyn hyn.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gareth Jones, Pencilan a Mrs Mary Owen, Maes Coetmor ar achlysur dod yn daid a nain i Noah.

Er Cof am Jean Ffarm Tanyfoel

A fu farw 3 Mehefin 2012

Dyma ddydd sy'n dwyn atgofion Am un annwyl iawn i ni; Dal mae'r hiraeth yn ein calon, Ergyd fawr oedd ei cholli hi.

Wrth i'r amser fyned heibio, Hiraeth sy'n parhau o hyd; Colli wnaethom un mor arbennig Oedd yn werth y byd i ni i gyd.

Dafydd

(David Elwyn Pritchard, ei chefnider)

Darllenwyd y penillion gan Pat, merch Jean, yn angladd ei mam ar 11 Mehefin.

Ysbyty

Cofion cynnes a gwellhad i bawb a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref erbyn hyn.

Mr Emyr Jones, Maes Coetmor
Mrs Joan Morris, Adwy'r Nant
Mr Stan Edwards, Coetmor
Mr Terry Williams, Pant Glas
Mrs Betty Williams, Abercaseg
Mr Gareth Adams, Abercaseg
Mrs Dilys Jones, Pencilan
Mrs A Cornfield, Coetmor

Pen-blwydd ac Ymdeoliad

Pen-blwydd hapus iawn i Mr Ian Hughes, Rhos Gordon ar achlysur dathlu ei ben-blwydd arbennig ar 6 Gorffennaf. Hefyd ymdeoliad hapus i awn iti Ian.

Cydymdeimlad

Amfonwn ein cydymdeimlad at Mr Charles Doyle a'r teulu, Pengraig, ar achlysur eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl, sef y ddiwedddar Mrs Mary Doyle yn 99 oed.

Ein cydymdeimlad hefyd â theulu'r ddiwedddar Mrs Bet Hughes i gyd.

Marwolaethau

Ar 16 Mehefin ym Mhlas Ogwan, bu farw Mrs Annie Griffiths yn 91 oed, priod y diwedddar Mr William Griffith a mam y diwedddar Hughie Wyn a modryb hoffus. Bu'n byw yng Nghiltrefnus ac Adwy'r Nant cyn ymgartrefu ym Mhlas Ogwen. Roedd yn aelod ffyddlon iawn o Eglwys Crist Glanogwen. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Iau, 21 Mehefin gyda gwasanaeth yn amlogfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Matthews. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

Yn Ysbyty Gan Clwyd ar 19 Mehefin bu farw Mr Cecil Victor Morgan, gynt o 52 Glanogwen, yn 92 oed. Priod annwyl Mrs Myfanwy Morgan, tad hoffus David a Menna a Peter a Madalane, taid caredig Dyfed, Rhodri, Siân a Catrin, Elin, Alys a Nia a hen daid i Noah. Un o'r Gerlan oedd Mr Morgan cyn ymgartrefu yng Nglanogwen a bu'n aelod ffyflon o Eglwys Crist, Glanogwen ar hyd ei oes. Yno y cynhaliwyd y gwasanaeth ddydd ei

angladd, sef y dydd Sadwrn, 23 Mehefin, gyda'r claddu ym mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd. Cydymdeimlwn hefyd â Mr a Mrs Gareth Jones, Pant Glas.

Ar 1 Gorffennaf yng Ngherrig yr Afon bu farw Mrs Elizabeth Catherine Jones yn 86 oed, gynt o 6 Rhos Fictoria ac Arafa Don. Priod y diwedddar Mr John Henry Jones a mam a mam-yng-nyfraith Eifion ac Eirian, nain Ceri a Siôn, Glesni a David, Siôn a Jennie a hen nain Elin Jên a'r diwedddar Owen Siôn. Chwaer Menai, Megan a'u teuluocedd. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlogfa Bangor ddydd Gwener, 6 Gorffennaf. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu.

Diolch

Dymuna teulu'r ddiwedddar Annie Griffiths, o 25 Adwy'r Nant gynt, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur ru profedigaeth ddiweddar. Diolch yn arbennig i staff Plas Ogwen am eu gofal mawr ohoni yn ystod y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf. Diolch hefyd am y rhoddion er cof amdani tuag at Gronfa Mwynderau Plas Ogwen.

Diolch

Yn dilyn ei ymdeoliad dymuna Ian Hughes, Rhos Gordon, ddiolch o galon i'w holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth trwy gydol ei gyfnod del cyd-berchennog Garej Ffrydglas. Bu'n bleser cael cydweithio gydag Arthur a'r holl dim ac mae Ian yn dymuno'r gorau iddynt i'r dyfodol.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Ar ddydd Sul, 18 Mehefin, cafwyd diwrnod agored llwyddianus iawn yn 29 Ffordd Ffrydglas, cartref Joe ac Eira, o 10.00 y bore hyd at 10.00 yr hwyr. Bu Gwenda, Gwen, Angharad, Eira a Joe yn brysur yn gweini a gwerthu drwy'r dydd, gydag elw'r diwrnod yn mynd at waith "y cyfeillion". Cafwyd raffl ardderchog gyda sawl gwobr dda. Yna roedd sgwar lwcus i ennill Basged Fwyd gwerth £40, gyda rhodd tuag at yr hamper gan Iain a Janet, Siop Rachub. Yr enillydd oedd Margaret (Cegin Ysgol Llanllechid). Yng nghystadleuaeth y sgwâr lwcus enillodd Gwenda Bowen fag wedi ei lunio a'i gyfrannu'n rhodd gan Angharad Huws.

Dymuna Eira a Joe ddiolch yn fawr iawn am gefnogaeth cymdogion, cyfeillion ac aelodau Capeli ac eglwysi'r cych. Diolch am bob rhodd tuag at y bwrdd gwerthu, y raffl a'r rhoddion ariannol. Unwaith eto, diolch yn fawr iawn i Gwenda, Gwen ac Angharad am eu gwaith yn ystod y dydd.

Yr elw ar y diwrnod oedd £1,174.71 a fydd yn mynd at helpu i dalu am beiriant 'Finometer Midi', gwerth £22,265.

Cynhaliwyd noson ardderchog yng Nghanol Penrhos ar 26 Mehefin. Noson o wledda a phrofi bwyd traddodiadol o wlad India a rhai o ddawnsfeydd y wlad. Gwnaethpwyd elw o dros £800 at gost y Finometer Midi.

Gorffwysfan

Ar ddydd Mawrth, 26 Mehefin, aeth 44 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith ddirgel gan gychwyn o Lanffrydglas a chodi aelodau yn Adwy'r Nant, Rachub a Thregharth. I lawr â ni ar hyd yr A55 at gylchfan Glan Conwy ac yna yn ôl heibio'r Faenol, Caernarfon, Cacathro, Pontrug ac i Lanberis, lle cawsom fynd ar daith i'r Mynydd Gwefru. Wedi paned, drosodd â ni i Ynys Môn ac i Oriol Môn ac i Westy'r Fictoria ym Mhorthaethwy lle cafwyd cinio ardderchog. Wedi'r bwyd cafwyd raffl a phleidlais ar gyfer gwibdaith mis Medi. Ar y brig daeth Amwythig ac 'Iron Bridge'. Diolchodd ein Cadeirydd Mr Eric Jones i bawb a oedd wedi cyfrannu tuag at y raffl ac i Elfed am werthu'r tocynnau, i Westy'r Victoria am y bwyd, i Steve o gwmni bysys Hefin Griffith ac i'r ysgrifennydd am y trefniadau.

Chwithau'r aelodau, cofiwch y tâl aelodaeth o £10.00 yn ystod mis Awst - i'r trysorydd Mr Joe Evans os gwelwch yn dda. Ac mae angen yr enwau ar gyfer gwibdaith Amwythig ar y rhestr yng Ngorffwysfan erbyn dydd Mawrth 11 Medi, ynghyd â'ch £1.00 o dâl i Joe Evans neu Vernon Owen. Bydd y rhestr i'w fyny yng Ngorffwysfan ar y cyntaf o Awst.

Capel Bethania

Oedfaon

Mis Awst: Wedi Cau

02 Medi:

Y Parchedig Reuben Roberts

16 Medi

Mr Thomas Alun Williams

Oedfaon am 5.30 o'r gloch

Croeso Cynnes i Bawb

Meithrinfa Ogwen Cyf

Croeso cynnes i'r plant newydd sydd wedi ymgartrefu acw yn ystod y misoedd diwethaf.

Pob lwc i'n plant mawr ni a fydd yn ein gadael yn fuan i fynd i ysgolion lleol. Bydd Anti Fiona yn edrych ymlaen i groesawu nifer ohonynt yn y Clwb Cinio a'r Clwb ar ôl Ysgol.

Cofiwch am ein Clwb Gwyliau sydd wedi ei leoli yn y Caban yn Ysgol Llanllechid, a fydd ar agor yn ystod y gwyliau. Bydd nifer o weithgareddau a digwyddiadau'n cael eu cynnal yno. Cysylltwch efo Anti Fiona ar 07899 794 135 am fwy o fanylion ac i drefnu lle.

Yn ystod y mis diwethaf cafwyd noson o hwyl yn y feithrinfa efo rhieni a staff yn dod at ei gilydd i noson Body Shop.

Ffair Haf Cylch Meithrin Cefnfaes efo Peppa Pinc a George

Hoffai'r Cylch ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd a chefnogi'r bore. Cafodd Peppa a George fore hwyliog yng nghwmni trigolion Bethesda. Llwyddom i gasglu dros £400 tuag at y Cylch Meithrin.

Cystadleuaeth gwerthu raffl

Diolch i bawb a gyfrannodd wobrau tuag at y raffl fawr. Llwyddodd Sophie i werthu'r mwyaf o lyfrau raffl ar gyfer y ffair haf. Llongyfarchiadau mawr i ti a mwynha dy siwrne ar Reilffordd Ffestiniog!



Dyma lun o Sophie yn derbyn ei gwobr gan Peppa a George.



Dyma lun diwedd tymor plant Cylch Meithrin Cefnfaes

EGLWYS UNEDIG BETHESDA yng Nghapel Jerusalem

Estynnir croeso cynnes i
bawb i oedfaon Sul

Bore Gwasanaeth ac Ysgol Sul am 10.00
Hwyr Gwasanaeth am 5.00

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

Gwasanaethau'r Mis

Gorffennaf

15 Parch John Owen (Rhuthun)
22 Y Gweinidog (10.00)
Parch. Robert Capon (5.00)
29 Parch. Dafydd Ll. Hughes
Awst
05 Miss Nerys Jackson
12 Parch. Arthur Meirion Roberts

Merched y Wawr Cangen Bethesda

Daeth tymor 2011 – 2012 i ben gyda thaith ddiregel a drefnwyd yn ofalus gan Glenys Clark. Cawsom fynd o Fethesda i Feddgelert a thrwy Dyffryn Nantlle i Borthmadog ac wedi orig o orffwys yno, mynd ymlaen drwy Gricieth a Phwllheli i ben draw Llŷn. Ni chwasmos weld Enlli oherwydd y niwl ond fe fu'r tywydd yn well na'r disgwyl gan i ni gychwyn mewn mell a tharanau a chawodydd trwm. Cawsom dreulio amser yn eglwys Hywyn Sant yn Aberdaron a chael swper yn y Tŷ Newydd cyn cychwyn yn ôl drwy Fryn Cynan a'r Ffôr i'r briffordd rhwng Caernarfon a Phwllheli ac adref i Fethesda. Diolch i Derfel am ein cludo yn ddiogel a dangos llawer lle diddorol i ni ar hyd y daith. Nid pob gyrwrw bws sy'n gallu galw i gof ddarnau helaeth o waith R. Williams Parry yn gwbl ddirybudd!

Roedd rhai wedi methu ymuno gyda ni – Dilys yn cael triniaeth i'w throed a Bessie wedi cael damwain. Cofion atynt ac at unrhyw un arall oedd wedi methu ymuno gyda ni. Roedd Margaret yn brysur yn addurno'r capel erbyn priodas Elin, wyres Jennic. Pob dymuniad da iddi hi a'i phriod Stephen. Llongyfarchiadau i Margaret ar enedigaeth merch fach i Jên a'i phriod. Mae Jên wedi bod yn gymorth mawr i ni fel cangen a gobeithio y bydd Marged Ann fach yn dilyn ar ôl ei mam a'i nain yn fedrus ym myd y crefftau. Llongyfarchiadau hefyd i Dilys a Mary yn gyd-neiniau i fachgen bach merch Mary a Mab Dilys. Rhaid llongyfarch Doris Shaw ar ddoe yn hen-nain i bedwar bachgen bach yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Llongyfarchiadau i Catrin Roberts, wyres Eleanor ar ennill gradd gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Bangor. Llongyfarchiadau hefyd i Robert, mab Pat Corns ar lwyddo yn ei arholiadau terfynol fel llaw-feddyg ac i Richard ei frawd ar ei ddyweddïad.

Rydym yn brysur yn llunio rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Edrychwn ymlaen at groesawu aelodau hen a newydd ym mis Medi.

Yr Eglwys Unedig

Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Mae tymor y gwyliau wedi cyrraedd a llawer cisocs wedi mynd i grwydro. Gobeithio eu bod yn dod o hyd i'r haul! Anfonwn gofion at y cleifion, rhai wedi bod yn yr ysbyty ac yn dechrau gwella erbyn hyn, eraill yn gaeth i'w cartrefi. Anfonwn gofion atoch i gyd.


Cawsom nifer o fabanod yn ddiweddar – Doris Shaw wedi dod yn hen-nain i bedwar bachgen a Myfanwy Jones yn hen-nain i ferch fach. Mae Gareth a Dilys Jones wedi dod yn daid a nain i fachgen bach eu mab Stephen a'i briod a Minnie Lewis yn nain i ferch fach, sef merch Dr. Nia Hughes a Dr. Meic Hughes. Pob dymuniad da i'r teuluoedd yma i gyd.

Bore Sul, Mchefin 10, bedyddiwyd Enoc a Begw Mai, plant Einir a Gwyn, Llangollen (Bethesda) gan y Gweinidog. Bendith amynt hwythau.

Llongyfarchiadau i ddwy aelod ifanc o'r eglwys sef Catrin Roberts a Siwan Puw y ddwy wedi graddio gydag anrhydedd – Catrin ym Mhrifysgol Bangor a Siwan ym Mhrifysgol Manceinion. Llongyfarchiadau hefyd i unrhyw un sydd â chysylltiad â'r eglwys drwy eu teulu. Llongyfarchiadau hefyd i Dr. Menna Wyn, merch Ieuan a Blodeuwedd Wyn ar ennill gradd doethor. Edrychwn ymlaen at lwyddiannau pellach yn yr arholiadau sydd newydd orffen yn yr ysgolion.

Mae'r Ysgol Sul a Chlwb nos Fawrth wedi dod i ben tan fis Medi. Diolch iddynt a'u hathrawon am eu ffyddlondeb a'u gwaith. Bu'r bobl ifanc yn plannu blodau wrth ddrws y capel a bellach maent yn dechrau blodeuo. Byddant hefyd yn beicio ar hyd y Lôn Las i godi arian at Apêl Guatemala. Bu'r Clwb Celf yn ciniawa yn y Fictoria, Borth i orffen eu tymor gweithgar hwythau.

Er bod gweithgareddau'r gaeaf wedi dod i ben, cofiwch bod croeso i alw am banded bore lau ac i'r oedfaon ar y Sul hefyd.



Dyma rai o enethod Clwb Nos Fawrth yr Eglwys Unedig a gymerodd ran yng Ngwasanaeth yr Urdd yng Nglynllifon



Fflur ac Elin yn paratoi bocsys blodau i'w rhoi tu allan i'r capel.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Raymond Tugwell,
9 Ffordd Llanllechid
☎ 601077

Graddio

Llongyfarchiadau i Arwyn Williams, Ffordd Llanllechid ar ennill gradd BA mewn Pensaerniaeth ym Mhrifysgol Huddersfield.

Hefyd Cynon Tomos ar ennill gradd gradd B.Sc mewn Anatomi. Gradd ychwanegol oedd hon a bydd yn parhau i ddilyn ei radd Meddygaeth y tymor nesaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Elen Mair Williams, Henbarc ar ennill gradd BSc ym Mhrifysgol Bangor.

Diolch



Hoffai Mari Fflur ddiolch o galon i bawb am eu cyfarchion a'u hanrhegion caredig ar ei phen-blwydd yn 18 ym mis Mehefin. Diolch yn arbennig i ffrindiau Dwylo Prysus ac Ysgol Sul Carmel am eu caredigrwydd.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau calonnog i Selwyn ag Ann Jones, Bron Arfon ar achlysur dathlu eu priodas Ruddem.

Dymuniadau Gorau

Mae teulu Hen Barc am anfon cariad mawr at Ceri a Lee ar gyfer eu priodas ym mis Awst.

Cwrw Da

Pob dydd bellach clywir storïau am dafarndai yn cau. Yn sicr mae'r hinsawdd economaidd yn broblem ac mae newid o fewn cymdeithas, lle mae llawer yn gallu prynu cwrw gweddol rad yn yr archfarchnadoedd a siopau lleol gan ei yfed yn y cartref. Ond bu achos dathlu yn y Royal Oak, Rachub yn ddiweddar wrth i Alison a Geraint ennill gwobr am sicrhau fod y peipiau cwrw o'r seler i'r bar yn cael eu glanhau yn rheolaidd. Mae *Punch Taverns*, y cwmni sy'n rhedeg y gystadleuaeth, yn mynnu y dylid glanhau y peipiau o leiaf unwaith

yr wythnos. Nid yn unig fod hyn yn sicrhau fod y cwrw o'r radd flaenaf, y mae hefyd yn dangos fod y ddau yn parchu ac yn edrych ar ôl eu cwsmeriaid. Roedd y wobwr hefyd am gadw seler daclus a glân. Yn ôl Alison roedd ynt yn falch o dderbyn y wobwr gan eu bod yn ystod y tair blynedd wedi ceisio cadw tŷ sy'n gweddu i'r ardal. Bu Alison yn gweithio yno am dair blynedd cyn i'r dafarn gau ac yr oedd yn dipyn o fenter rhoi cynnig ar ei chadw. Mae'n swydd brysur yn enwedig gyda'r oriau agor wedi ei hystyngi. Er mai tawel yw cyfnod yr haf, mae'r dafarn yn rhedeg tîm dartiau yng nghyngor Bangor, a thimau Pwl a Dominos yng nghyngor Bethesda yn ystod y gaeaf. Gobaith Alison yw ychwanegu at y timau yma yn ystod misocdd y gaeaf. Llongyfarchiadau a Techyd Da.

Gwellhad buan

Anfonwn ein cofion a dymuniad am wellhad buan at David Jones (Dids), Bryn Eglwys, at Glana Bevan yn y Red Lion, ac at Mrs Olwen Lewis, Rhes Bryn Owen. Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Brenda Hughes, Talysarn, sydd wedi bod yn wacl yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Bu farw Mrs Mary Doyle, Cae'r Groes, yng nghartref Penisarwaun. Roedd Mrs Doyle o fewn ychydig fisoedd i fod yn 100 oed. Roedd yn berson tawel a bonheddig ond yn barod iawn ei sgwrs a'i chymwynas. Hannai o deulu hanesyddol yn yr ardal ac mae atgofion am neuadd ddawns 'John P' a gai ei rhedeg gan ei thad, yn fyw yng nghof rhai o hynafgwyr yr ardal. Cofiw'n hefyd i Mrs Doyle redeg gwasanaeth llogi dillad ar gyfer dramau, partion, ac achlysuron arbennig. Anfonwn ein cydymdeimlad at Fred, Charles ac Alan a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u galar.

Daeth newydd hefyd am farwolaeth ddisymwth Emllyn Sherrington yn 73 mlwydd oed. Er nad oedd wedi bod yn teimlo'n dda ers peth amser roedd ei farwolaeth yn dipyn o sioc. Roedd Mr Sherrington a'i wraig Judith, Almaenes rugl ei Chymraeg, wedi cartrefu ym mhen uchaf y Stryd Fawr ers peth amser bellach. Bu Mr Sherrington yn ddarlithydd yn Adran Hanes y Brifysgol ym Mangor ac wedi gwneud gwaith ymchwil i fywyd cymdeithasol Cymru, Prydain ac Ewrop. Dywedodd Dr Merfyn Jones fod Mr Sherrington yn arloeswr ym myd darlithio drwy'r iaith Gymraeg. Ymddiddorai hefyd mewn gwleidyddiaeth ac, fel sosialydd, fe ymladdodd ddwy etholiad seneddol yn etholaeth Caernarfon yng nghanol y 1970au. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu yn eu colled.

Gyda'r Newyddion ar fin mynd i'r wasg dacth newydd trist am farwolaeth Mrs Bet Hughes, Rhen

Capel Carmel

Yr Ysgol Sul

Roeddem wedi trefnu i gael picnic ar y mynydd ar y cyd â phlant Ysgol Sul Bethlehem, Talybont ar fore Sul 1 Gorffennaf i gloi gweithgareddau'r flwyddyn am yr haf. Yn anffodus, bu'n rhaid newid y trefniadau oherwydd y tywydd gwlyb. Yn lle'r picnic cawsom weithgareddau amrywiol yn y capel a'r festri gan ddefnyddio hetiau papur newydd at y gwaith. Roeddem yn gwisgo hetiau papur newydd wrth inni fynd i ganu yn y capel ac yna aeth y plant lleiaf i beintio eu traed a gadael eu hól ar bapurau newydd. Penderfynodd y rhai hynaf fynd am dro gan fod y tywydd wedi gwella. Actant am dro o gwmpas Rachub. Mwynhaodd pawb y picnic yn y festri ar ddiwedd y bore. Bydd yr ysgol Sul yn ail agor ar 9 Medi 2012 gydag Oedfa Deuluol yn y capel am 10.30. Bydd y gwasanaeth dan ofal y Parchedig Geraint Hughes. Croeso mawr i bawb ymuno â ni yn y gwasanaeth.



Y plant wrth eu bodd yn canu



Y plant hynaf ar eu ffordd i'r mynydd

CAPEL CARMEL Gwasanaethau

Mis Gorffennaf

22 Y Gweinidog 5.00
29 Y Gweinidog 2.00 a 5.00

Mis Awst

05 Uno yn Jerusalem
12 Uno yn Jerusalem
19 Y Gweinidog 2.00
26 Y Gweinidog 2.00

Mis Medi

02 Y Gweinidog 5.00
09 Oedfa i'r Teulu 10.30 y bore
09 Y Gweinidog 5.00
16 Bore Plas Ffranco 10.30
16 Miss Nerys Jackson 5.00

Croeso Cynnes

Ysgol a hithau'n 92 mlwydd oed. Cofiw'n am Mrs Hughes a'i gŵr Arfon yn rhedeg busnes tacsis a chaffi ger Neuadd Ogwen ar Stryd Fawr Bethesda. Anfonwn ein cydymdeimlad at Megan a'r teulu sydd wedi wynebu blwyddyn galed iawn.

Diolch

Dymuna Megan, Alison, Amanda a Kim ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth fawr o golli

CAPEL BETHEL Gwasanaethau

Mis Gorffennaf

29 Mr Alun Wyn Rowlands

Mis Awst

Dim Oedfaon

Mis Medi

02 Mr Richard Lloyd Jones
09 Y Gweinidog
16 Y Parchedig Merfyn Jones
23 Mr Dafydd Iwan

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb.

Debbie. Mac'r teulu yn ddiolchgar iawn i bawb.

Hefyd mae Mrs Eleanor Jones, Maes Bleddyn, a'r teulu am ddiolch i gymdogion a ffrindiau am bob cydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur trist marwolaeth Tom Ffranco Jones.

Pen-blwydd Hapus

Mae nifer yn yr ardal yn dathlu pen-blwydd arbennig dros yr haf. Mwynhaodd John Roberts (John Becws) barti wrth iddo gyrraedd ei

ben-blwydd yn 80 oed. Mae'r teulu am dymuno pob hwyl iddo.

Hefyd yn cyrraedd yr un oedran anrhydeddus mae Gwilym Rees Evans (Gwil Bryn Eithin). Mae Karen, Tom, Stephen, Elen, Ceri a Lee a'r teulu oll yn anfon eu cyfarchion ato.

Dathlodd Sylvia Williams, Bron Bethel, (Sylvia Glanrafon) ei phenblwydd yn 65 oed. Pob dymuniad da Sylvia.

Ac yng Nghanol Gorffennaf dathlodd David Emlyn Williams, Ffordd Llanllechid, ei ben-blwydd yn 21 oed. Pob dymuniad da i David Emlyn.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Llongyfarchiadau

Dwi'n siŵr fod pawb yn yr ardal am longyfarch plant a staff yr ysgol a wnaeth mor dda yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Da iawn wir!

Nain a Thaid

Llongyfarchiadau i Brian a Gwenda Jones, Bron Arfon ar ddod yn nain a

thaid unwaith eto, wedi geni Fflur Meleri i Gareth a Nia ym Mhorthaethwy. Dymuniadau gorau i'r teulu oll.


Diolch o'r Red Lion

Hoffai Glenna Bevan ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogaion am eu caredigrwydd yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd i gael dwy benglin newydd. Diolch i bawb a ddaeth i'r ysbyty ac i'r Red Lion, am y cardiau a'r blodau ac i'r Parchedig Geraint Hughes am ei ymweliadau cyson. Diolch arbennig i Alwyn a Gerallt am eu gofal diflino ddydd a nos a fy nghael i gerdded unwaith eto. Diolch yn fawr i bawb.

Pen-blwydd a Chartref Newydd

Roedd John Williams, Haulfryn yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ym mis Ebrill. Llongyfarchiadau! Hefyd mae wedi symud tŷ o Rachub i'r Carneddi oherwydd ei icchyd. Pob lwc iddo.

Cylch Ti a Fi Rachub Trip i'r Sioe Feithrin



Ar fore dydd Llun, 25 Mehefin bu plant bach Cylch Ti a Fi Rachub ar drip i'r Galeri yng Nghaernarfon i weld Sioe'r Wyl Feithrin. Bu'n fore hwyliog yn llawn canu a dawnsio. Dyma lun o rhai o blant y Cylch efo'r brodyr Gregory a Dewin. Hoffwn ddiolch hefyd i Anti Keilley am drefnu i ni gyd gael mynd!

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion annwyl at:- Gill Bullen, Ernie a Nerys Coleman, Jim a Beryl Hughes, Mair Leverett, Olwen Lytham, Gwen Morsley, Betty Williams, Dorothy Proudley-Williams, Joan Willis a'r rhai sy'n dymuno aros yn ddiennw. Brysiwch wella!

Arholiadau

Pob lwc i bawb sy'n disgwyl eu canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn ystod mis Awst a gwyliau hapus i'r plant i gyd.

Bore Coffi

Yn Neuadd Ogwen ar 9 Mehefin cynhaliwyd bore coffi er budd yr R.N.L.I. gan wncud clw o £214.60. Diolch arbennig i Julie Owen, Caernarfon am drefnu popeth ac i Beryl a Pauline am roddi help llaw. Hoffai Julie ddiolch i Beryl a Pauline ac i bawb a oedd yn bresennol yn y bore coffi. gwyddom fod trigolion Bethesda a'r cylch yn barod iawn i gefnogi achosion da.

Llongyfarchiadau

Eleni eto rydym yn llongyfarch Jennifer a John, Llys y Gwynt, ar eu llwyddiant yn eu diwrnod gardd agored ar 20 Mai. Gwnaed clw o £1,300 er budd elusennau. Gobeithio y byddant wedi cael tywydd sych ar ddydd Sul, 1 Gorffennad ac y bydd llawer wedi ymweld â'r ardd. mae Jennifer a John yn diolch i bawb.

Eglwys Sant Tegai

Ymddeoliad

Dymunwn yn dda i Mrs Rhian Llewelyn Jones ar ei hymddeoliad cynnar o fod yn athrawes Almaeneg yn Ysgol Aberconwy. Bydd colled enfawr i'r athrawon a'r plant ar ei hôl gan ei bod wedi bod yn dysgu yno ers amser maith. Gobeithio, Rhian, y cewch icchyd i fwynhau eich amser gyda Gareth, Huw, Gwenan, a hefyd eich chwaer Ann, boed ym Mangor neu yn Ffrainc.

Gwaeledd

Rydym yn anfon ein cyfarchion a'n dymuniadau da at Mrs Jane Couch, Beryl Edwards, Wynne Edwards a Harry Gross – hyderwn y cawn eich cwmni'n fuan.

Pen-blwydd hapus i chwi Jane, ddydd Sul 29 Gorffennaf. Gobeithio na fyddwch mewn gormod o boen ac y cewch amser difyr gyda'r teulu.

Dathlu'r Jiwbil Diemwnt
Ar fore Mawrth, 5 Mehefin,

cawsom wahoddiad i'r Ysgoldy, Talybont i ymuno yn y dathlu gyda "Bring and Share Brunch". Roedd pawb wedi cael amser da ac yn ddiolchgar iawn i John, Sue a merched yr Eglwys am eu croeso. Yn ddiweddarach yn y dydd roedd trigolion Llandygái wedi cyfarfod ar y grŵn wrth yr ysgol am 4.00 y prynhawn i gael parti – pawb wedi dod â phlatiad o fwyd a rhywbeth i'w yfed. Nid oedd y tywydd yn rhy garedig ond llwyddodd pawb i gael amser da.

Diolch

Ar 13 Mehefin roeddem yn ôl yn yr Ysgoldy, y tro hwn yn mwynhau Te Mefus rhagorol. Y lle yn llawn fel arfer a phawb yn cael amser gwych. Diolch o galon i Phyllis, Muriel, Bethan, Sue a phawb arall a fu'n helpu i'w gwneud yn noson mor llwyddianus. Diolch hefyd i John a Sue Matthews am ein croesawu mor gynnes.

Côr Merched Cantabile

Roedd aelodau Sant Tegai yn falch o gael croesawu Côr Cantabile yn ei ôl, a'r tro hwn roeddent yn canu caneuon ysgafn. Bu canmoliaeth mawr i'r côr yn Neuadd Talgai ar nos Wener, 22 Mehefin. Diolch i Linda Griffiths yr arweinydd, Menna Leyshon y gyfeilyddes, Morgan Warren Jones ar y soddgrwth, ac i'r côr wrth gwrs. Roedd lluniaueth yn y neuadd ar ddiwedd y cyngerdd, diolch i Nerys a'r merched yn y gegin, heb anghofio Linda Irons oedd yn canu yn y côr ac yn helpu efo'r bwyd. Gwnaed elw o £137 i'r Eglwys.

Bedydd

Bu'r Parchedig John Matthews yn brysyr iawn yn ddiweddar. Cafodd tri plentyn bach eu bedyddio yn Sant Tegai. Bore Sul 10 Mehefin bedyddwyd Lily May yn ystod gwasanaeth y cymun – roedd yr Eglwys yn llawn iawn. Yng ngwasanaeth y cymun, dydd Sul y cyntaf o Orffennaf. bedyddiwyd dau frawd bach, sef Bobby James a Lewis Alun. Mr Geraint Gill oedd yr organydd yn y ddau wasanaeth. Bendith Duw ar y ddau deulu. Tro Jacob fydd hi ddiwedd y mis, 29 Gorffennaf – clywais ei fod yn setlo'n iawn yn ei gartref newydd yn Nwygyfychi.

Ffair Haf

Diolch o galon i Nerys, Ann, Hazel a Beryl (chwaer Nerys) am edrych ar ôl y stondin llyfrau ail law yn Ffair Haf Ysgol Llandygái ar nos Wener 29 Mehefin. Gwnaed clw o £37 tuag at yr Eglwys.

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Diolch

Dymuna Nerys, Brian, a Craig Costello, Stryd y Ffynnon, ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad ar achlysur trist colli gŵr a thad annwyl iawn, y diweddar Brian Costello. Diolch yn fawr iawn i deulu a ffrindiau am yr holl gymorth a gawsant gydol cyfnod gwaeledd Brian. Diolch i'r Parch John Matthews, y Parch Jennie Hood, a'r Parch Jane Allen o Hospis Dewi Sant am y gwasanaeth angladdol. Diolch, hefyd, i Gareth Williams, yr Ymgymwrwr, am y trefniadau trylwyr. Dymuna'r teulu ddiolch yn fawr iawn am y rhoddion ariannol tuag at Hospis Dewi Sant, Llandudno er cof am Brian.

Dod yn nain

Llongyfarchiadau i Carys Wyn Williams, Ciltrefnus, ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Ganwyd Elgan Llywelyn i'w mab, Llion, a'i gyfar, Kerry. Rydw i'n siwr eich bod i gyd wedi gwirioni efo'r bychan. Dymuniadau gorau i chi fel teulu

Dod yn hen nain

Llongyfarchiadau mawr i Myfanwy Jones, Gwernydd, ar ddod yn hen nain am y pedwerydd tro. Ganwyd merch fach, Fflur Meleri, i'w hŵyr, Gareth, a'i gyfar, Nia, ym Mhorthachwy. Ein dymuniadau gorau i chi fel teulu

Deunaw oed

Mac Rhiannon O'Marah, Gwernydd, newydd ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau mawr iti, Rhiannon. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu

Un ar hugain

Mac dau o bobl ifanc yr ardal wedi dathlu eu penblwydd yn 21 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Siwan Puw, Ciltwillan, a Carwyn Evans, Stryd Morgan. Gobeithio i'r ddau ohonoch fwynhau dathlu'r achlysur arbennig. Ein dymuniadau gorau ichi eich dau.

Deg a thrigain

Cyrraedd oed yr addewid yn ystod y mis fu hanes Richard Hughes, Stryd y Ffynnon. Llongyfarchiadau mawr i ti, Rich; gobeithio fod dathlu mawr wedi digwydd yn Stryd y Ffynnon. Er cyrraedd ei 70 mae Rich mor brysur ag erioed gyda'i ardd, ei bysgota, a'i nifer fawr o ddiddordebau eraill. Dymuniadau gorau i'r dyfodol, Rich.

Brysiwch wella

Rydym yn cofio at Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth. Mae bellach adref, ac rydym yn dymuno'r gorau am wellhad buan a llwyr ichi, Tecwyn. Cymrwch bethau'n ysgafn am dipyn rwan.

Graddio

Rydym yn llongyfarch Siwan Puw, Ciltwillan, ar dderbyn gradd anrhydedd 2(1) yn y Gyfraith o Brifysgol Manceinion. Da iawn, Siwan; pob dymuniad da i ti i'r dyfodol

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Fred a Jean Doyle, a Linda ac Andrew Bowen, Ciltwillan, yn eu

profedigaeth o golli mam a nain annwyl, sef y diweddar Mary Doyle, a hithau bron iawn wedi cyrraedd y 100 oed. Rydym yn meddwl amdanoch ar yr adeg trist hwn

Llawdriniaeth

Mac Paula Williams, Ffordd Gerlan, wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn falch o'i gweld adref yn awr, ac yn gwella. Ein dymuniadau gorau iti, Paula

Cartref newydd

Croeso i Mcurig ac Emma i'w cartref newydd yn Stryd y Ffynnon. Mae'r ddau wedi bod yn hynod o brysur yn adnewyddu eu cartref. Dim ond wedi symud i lawr y ffordd y mae Gwyn, gan mai bachgen o Ffordd Gerlan ydyw, ond mae Emma wedi dod atom yr holl ffordd o Dalybont. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd

Perfformio yn y Bont

Mac Callum O'Marah, Gwernydd, ac Elin Cain, Ffordd Gerlan yn rhan o grŵp Eilir Jones fydd yn perfformio yng nghyngerdd dathlu hanner canmlwyddiant Cymdeithas yr Iaith ym Mhontrhydfendigaid y mis hwn. Da iawn chi, a dymuniadau gorau ichi.

Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo gyda David Môn a Bethan, Stryd y Ffynnon yn eu profedigaeth o golli chwaer David, y ddiweddar Jean Rees Jones o Bwllheli. Mae ein meddyliau gyda chi ar yr adeg trist hwn

Mwynhewch y gwyliau!

Bydd Llais Ogwan yn ôl eto ym mis Medi. Cofiwch anfon cich newyddion!

Glasingfryn Caerhun

Marred Glynn Jones

2 Stryd Fawr, Glasingfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched

Bu cyfarfod o'r sefydliad ar y 9fed o Fai dan lywyddiaeth Mrs Ingrid Farrer ac oherwydd absenoldeb y wraig wadd, Mrs Pat Jones, oedd i fod i arddangos blodau, treuliyd y noson yn trin materion ac yn trefnu'r diwrnod rhyngwladol a gafodd ei chynnal yn Llanberis ar y 30ain o Fchefin.

Cydymdeimlwyd â Mrs Pat Jones yn ei phrofedigaeth. Braff oedd cael croesawu Miss Margaret Griffith yn ôl atom ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac estynnwyd croeso i aelod newydd sef Jocelyn Bower.

Rydym yn llongyfarch Mrs Rosemary Williams ar gael ei phenodi yn Warden Eglwys y Gelli a dymunwn yn dda iddi.

Darparwyd te gan Mrs Jean Pierce a Mrs Margaret Owen.

Cawsom ŵr gwadd ar gyfer ein cyfarfod ym mis Mehefin, sef Mr Peter Brinley. Croesawyd yr aelodau a chyflwynwyd Mr Brinley inni gan Mrs Mair Griffiths oedd yn llywyddu'r noson.

Daeth Peter Brinley i Fangor yn 1954 a bu'n gweithio yn y Brifysgol. Diddordeb mewn tynnu lluniau sydd ganddo ac mae ganddo gasgliad helaeth o hen luniau dinas Bangor. Daeth â llawer o sleidiau i'w dangos. Mae'n rhyfedd gweld sut mae'r ddinas wedi newid, er gwell neu er gwaeth? Bu cryn ddyfalu dros rhai o'r sleidiau a hwyl fawr wrth gofio rhai eraill. Cafwyd noson ddiddorol.

Diolchwyd iddo gan Mrs Margaret Owen. Bu tipyn o sgwrsio a thrafod dros bandedd wedi ei pharatoi gan Mrs Sarah Flynn a Deirdre Williams.

Clwb Cant y Ganolfan

£20 - 75 - Mrs A M Pritchard
£10 - 24 - Mrs Cora Fielding
£5 - 106 - Mair Parry

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

'LLENWI'R CWPAN'

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd

Ysgol Gerlan 1923



Dyma lun o ddisgyblion Ysgol Gerlan yn 1923. Gyrrwyd ef i ni gan David Roberts, Ffordd Gerlan. Tybed a oes rhywun yn adnabod rhai o'r plant, er mor bell yn ôl yw'r cyfnod?

Hysbysebwrch yn y
Llais: Cysylltwch â:
Neville Hughes
600853

JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teilsiwyr

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

Posh Paws Tacluso Cŵn



Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau

4.00 - 10.00

Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.

Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen

01248 671382 neu 07935324193

Ebst: juliaposhpaws@btinternet.com

LONDIS BETHESDA

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

Blodau Racca

PENISARWAUN

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau

- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605

Gareth Williams Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Ymgymwrwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

CAFFI SEREN

BETHESDA

Ffon: 01248 600661

Oriau agor

Llun i Gwener: 8.00 tan 4.00

Dydd Sadwrn: 8.00 tan 1.00

BWYD CARTREF

Pryd arbennig (Special) bob dydd

Cinio rhost bob dydd Gwener

Bwyd i'w fwyta allan

Croeso cynnes gan Sue a'r staff

STEPHEN
JONES



TREFNYDD
ANGLADDAU

Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

AUR
CLOGAU

Gostyngiad o
20%

Os nad mewn sêl cisocs



Siswrn Arian
Trin Gwallt Merched,
dynion a Phlant

Vivien, Amanda, Jenny a Nicola
GEMWAITH BO-WEN

GWASANAETH TYLLU CLUSTIAU

☎ 601888

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Eglwys Maes y Groes

Cynhaliwyd te mefus yn yr Ysgoldy ar nos Fercher y 13eg o'r mis. Diolch i Phyllis Davies am drefnu'r noson lwyddiannus. Hoffem ddiolch hefyd i bawb am eu cefnogaeth, am y gwobrau i'r raffl, a'u rhoddion. Gwnaed elw o £640 at yr Eglwys.

Llongyfarchiadau i Clare Davies ac Andrew Butterfield ar achlysur eu priodas yn yr Eglwys ar 16 Mehefin. Gweinyddwyd gan ein ficer y Parchedig John Matthews a'r organydd oedd Geraint Gill. Dymunwn bob hapusrwydd i'r cwplw ifanc yn eu bywyd priodasol.

Yn ystod y mis bu Hefina Watts ar fordaith i Canada a Alaska i ddathlu penblwydd arbennig. Yn ôl pob golwg roedd wedi mwynhau ei hun yn fawr iawn.

Croeso gartref i Meirion a'r teulu o Dde'r Affrig. Treuliodd wyliuau gyda'i fam Mrs Gracie Griffiths yn Llwyn Y Wern.

Drwg oedd gennym glywed fod Sheila Owen, Mill Bank wedi treulio rhai dyddiau yn Ysbyty Gwynedd ond mae hi bellach wedi gwella'n ddigon da i gael dod adref.

Llongyfarchiadau i June ag Alan Hughes, 1, Bro Emrys ar ddathlu priodas aur yng nghwmni eu teulu a'u ffrindiau yn eu cartref ar ddydd olaf y mis. Yn ôl eu dymuniad roeddynt yn derbyn rhoddion at elusen Ymchwil Cancer a Tŷ Gobaith Conwy yn hytrach nag anrhegion. Gwnaed clw o £260. Hoffai June ag Alan ddiolch i bawb am eu rhoddion hael.

Capel Bethlehem, Talybont

Gwasanaethau

Gorffennaf

22 : Gweinidog ;
29 : Mr. J. O. Roberts, Bethesda.

Mis Awst : Dim Oedfaon.

Medi

2 : Gweinidog ;
9 : Mr. Richard Lloyd Jones;
16 : Gweinidog ;
23 : Parchg. Gareth Edwards, Cyffordd Llandudno.

**Oedfaon am 2.00 .
Croeso cynnes i bawb.**

Yr Ysgol Sul

Cafwyd gwahoddiad gan Ysgol Sul Carmel, Llanllechid, i ymuno â hwy mewn picnic a pharti diwedd tymor. Acth chwech o blant Ysgol Sul Bethlehem draw ar fore Sul, 1 Gorffennaf, ac fe gafwyd bore wrth eu bodd ar waetha'r ffaith y bu raid bwyta'r picnic yn y festri oherwydd y tywydd gwlyb. Y tywydd hefyd, oedd yn gyfrifol bod Mabolgampau'r Ysgolion Sul oedd i'w cynnal ar 3 Gorffennaf ym Mangor wedi eu canslo. Siom i'r plant!

Te Mefus

Cynhaliwyd Te Mefus llwyddiannus iawn yn y festri ar nos Fercher, 27 Mehefin, pan wnaed elw o £608.00. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth i ni ym Methlehem.

Bwrlwm

Daeth tymor y Bwrlwm i ben gyda swper yng Ngwesty'r Helygen Hollt (Split Willow) yn Llanfairfechan ar nos Fawrth, 10 Gorffennaf.

Apêl am Luniau

A oes gennych chi unrhyw luniau (hen neu ddiweddar) o ddigwyddiadau yng Nghapel Bethlehem?

Os oes, tybed fydddech chi'n fodlon rhoi eu benthg ar gyfer eu cynnwys mewn arddangosfa i ddathlu'r 150 mlwyddiant. Hefyd unrhyw hen bapurau neu ddogfennau

**Cysylltwch â
Neville Hughes ar
01248 600853**

Mynydd Llandygái

Theta Owen.

Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Diolch

Dymuna Alan a Bronwen Davies, Tyddyn Canol, ddiolch o galon am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbynwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu priodas aur. Diolch yn fawr.

Genedigaeth

Dymuna Iwan a Natasha, Bwlch y Ffordd, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion a dymuniadau gorau a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab, Cian Glyn.

Clwb y Mynydd

Acth Clwb y Mynydd am drip i Groesoswallt a galw ym Morton Park ar y ffordd gartref. Cawsom ddiwrnod poetha'r flwyddyn! Diwrnod i'w gofio! Pawb wedi cael amser hyfryd. Diolch i Derfel am ei ofal a'i garedigrwydd. Ni chynhelir Clwb ym mis Awst, felly Gwyliau Hapus! Edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Medi.

Tystysgrif

Llongyfarchiadau i Ben Jones, Gefnan, ar gyrraedd safon uchel iawn mewn cystadleuact Fathemategol. Cafodd Ben fynd i Lynllifon i dderbyn tystysgrif arbennig yn yr Eisteddfod.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

15fed Gorffennaf:

9.45 Boreol Weddi

22ain Gorffennaf:

9.45 Cymun Bendigaid

29ain Gorffennaf:

10.00 Cymun Teuluol (Yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn)

5ed Awst:

9.45 Cymun Teuluol.

12fed Awst:

9.45 Gwasanaeth Teuluol

19eg Awst:

9.45 Boreol Weddi.

Eisteddfod Yr Urdd Eryri

Roedd Ifan Rhys Cooke, Cwm Hyfryd, 9 Gefnan, yn aelod o griw Cyflwyniad Dramatig Ysgol y Gamedd, Bangor, a ddaeth i'r brig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri yng Nglynllifon ym Mis Mehefin. Da iawn ti Ifan.

Dosbarthiadau Dawns a Gymnasteg

Llwyddodd chwirydd Ifan, sef Myfi Celyn a Nel Mai i ennill tystysgrif Aur yn eu gwersi Dawns/Gymnasteg yng Nghanolfan Hamdden, Caernarfon. Llongyfarchiadau i chithau genod.

Gwyl Erddi

Yng nghanol tywydd drwg y mis diwethaf, cawsom ddiwrnod heulog braf i ddathlu "Gwyl Erddi" y pentref. Braf oedd gweld cynifer o bobl yn mwynhau paned a chacen yn yr eglwys yn ystod eu taith o amgylch y gerddi a'r stiwdios celf a oedd ar agor yn ystod y dydd.

Bore Coffi

Cynhelir y "Bore Coffi" blynyddol yn Neuadd Ogwen, Bethesda ar fore Sadwrn, 15fed Medi. Cofiwch alw am banded"

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd - brysiwch wella!

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Gwasanaethau

Gorffennaf

22 : Carys Ann (am 2.00) .

Mis Awst : Dim Oedfaon.

Oedfaon am 2.00 .

Croeso cynnes i bawb.

Sialens Ddarllen Haf 2012-Lab Stori

Mae'n amser Sialens Ddarllen blynyddol Llyfrgelloedd Gwynedd unwaith eto, yn dechrau rŵan tan fis Medi. Fel arfer, mae'r plant yn hel sticeri ar bob ymweliad â'r Llyfrgell, a phob un sy'n cwblhau'r Sialens yn derbyn medal, a fydd yn cael ei dosbarthu i'r Ysgolion yn ystod Tymor yr Hydref.

Felly dewch i'r Llyfrgell blant, i roi cynnig ar y Sialens a gweld os fedrdech chi gael medal!

Bedydd



Ar brynhawn Sul, 10 Mehefin, bedyddiwyd Rhun Garmon, mab Robin a Hafwen Shepherd, Trefelin yng Nghapel Bethlehem, Talybont. Roedd yn braf cael croesawu aelodau o'r teulu a'u cyfeillion i'r oedfa pryd y cafwyd gwasanaeth hyfryd dan arweiniad y Parchedig Geraint Hughes. Dymunwn bob bendith i Rhun a'r teulu yn y dyfodol.

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Meithrin menter gymdeithasol leol**Am gymorth:**

i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â**Mantell Gwynedd**

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

**CAFFI COED Y BRENIN**

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.

Ffoniwch
01248 602550

e-bost : karena@agoriad.org.uk

Gorsaf betrol
BERAN

Deiniolen
Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor bob dydd 24/7

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau newydd
Cardiau pen-blwydd • Melysion
Toeynnau loteri
Gwasanaeth PAYPOINT ar gyfer
trydan, nwy, ffonau symudol,
trwyddedau teledu ayyb

Cerbydau Penrhyn**CABIAU A BYSIAU MINI**

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

**MODURDY**
FFRYDLAS

Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ 601031

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun - Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 - 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch goeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

MODURON
PANDY
Cyf.**Tregarth**

Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

BYSUS

D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÌ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 352835

Genedigaeth

Ganwyd efeilliaid i Gethin a Kelly Owen, Ffordd Penffridd, Bangor. a'u henwi yn Elis Iolo ac Ifan Llŷr. Mae Gethin yn fab i Catherine a'r diweddar Iolo Owen, Cae Glas ac yn frawd i Lowri, Alun a Robin. Llongyfarchiadau i Cathy ar ddoed yn nain am y tro cyntaf. Maent hefyd yn wyrion i Anne ac Arfon Evans, Ciltrefnus, Gerlan ac Agnes Owen, mam Iolo, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Willow Hall, Caernarfon. Dau arall sy'n llawenhau yw Arthur ac Enid Williams, Tregarth, rhieni Cathy.

Dathlu

Teulu arall a gafodd achos i ddatlu yw Tony a Glenys Jones, 9 Bron y Waun, wrth i'w mab Dylan a'i briod Bethan ddoed yn rhieni i Sara Lois ar 21 Mehefin. Cyfneither dderbyniol i Lydia.

Clwb Rhiwen

Yng nghyfarfod 13 Mehefin cawsom brynhawn difyr wrth i Iona, un o'n haelodau, olrhain hanes y gemau Olympaidd. Prin y gellid bod wedi cael testun mwy amserol wrth inni edrych ymlaen at y cystadlu yn Llundain ym mis Awst.

Soniodd am ddechreuod y gemau yng ngwlad Groeg ac am eu datblygu dros y canrifoedd i fod yr hyn ydynt heddiw. Cyfeiriodd hefyd at rai digwyddiadau arbennig a ddenodd gryn sylw o bryd i'w gilydd. Roeddem oll yn ddiolchgar iawn i Iona am roddi cymaint o'i hamser i baratoi ar ein cyfer.

Yng nghyfarfod olaf y clwb am y tymor buom ar ymweliad â Chaffi'r Cwm yng Nghwm y Glo, sefydliad sydd o dan adain Menter Fachwen. Cawsom wybodaeth am darddiad y fenter ac fe'n synwyd gan mor eang yw'r hyn a wneir, yn enwedig gyda phobl ifanc dan anfantais, nid yn unig yn nalgylch y Fenter ond gyda phlant a phobl ifanc yn yr India yn ogystal.

Mwynhawyd paned a theisen ar y diwedd. Diolch i Ann am wneud y trefniadau.

Marwolaeth

Yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ar 1 Mehefin yn 93 mlwydd oed bu farw Buddug Roberts, Rhiwen, Deiniolen. Ganwyd a magwyd Buddug yn y Garreg Lwyd, Rhiwlas, yn unig blentyn Hughie ac Annie Thomas. Bu'n briod ddwywaith; yn gyntaf gyda Trefor M. Roberts a olygodd iddi symud i Lerpwl lle y treuliodd ran helaeth o'i hoes. Yn affodus, bu farw Trefor yn gymharol ieuanc ac yna ymhen amser fe ail briododd gyda William (Bill) Roberts. Ar eu hymddeoliad gadawodd y ddau Lerpwl a sefydlu cartref yn

Merched y Wawr, Cangen Rhiwlas.

Fore dydd Gwener roedd nifer o'r gangen ar ddyletswydd ym mhabell y mudiad ar faes Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon. Roeddem yno erbyn wyth o'r gloch ac yn bryderus oherwydd yr holl fwd. Buom yn eithaf prysur gyda'r te a'r coffi a sawl un yn dweud mai gan y Mudiad yr oedd y baned orau! Ar y ffordd allan o'r brif fynedfa, wedi chwilio'n ddyfal amdanynt, fe welsom blant Ysgol Rhiwlas yn cyflwyno dawnsio creadigol. Llongyfarchiadau iddynt am roi sioe dda inni, a diolch i Mrs Olwen Green a'r staff am eu hyfforddi.

Linda oedd wrth y llyw yn y car y bore hwnnq ac roedd hi, Nia a Iona yn hynod falch o'r cymorth a gawsom gan y teulu oedd wedi parcio drws nesaf inni. Cyrraedd adref yn ddiogel, diolch byth!

Rhiwen, Deiniolen. Gadawyd Buddug yn weddw am yr ail waith pan fu farw Bill o fewn ychydig flynyddoedd iddynt symud i Rhiwen.

Wedi marw ei gŵr dechreuodd Buddug ymroi i waith gwirfoddol gyda'r W.R.V.S. yn Ysbyty Gwynedd, yn bennaf yn y caffï a'r siop. Bu hefyd yn ffyddlon yng Nghapel Pisgah, Rhiwlas, gan ail gysylltu â chyfnod ei heuenctid pan ddaeth yn organyddes ac yn arolygydd yn yr ysgol Sul. Roedd yn bresennol ym mhob cyfarfod, boed ar y Sul neu yn ystod yr wythnos. Cynhaliwyd gwasanaeth (preifat) ei hangladd yn yr amlogfa o dan ofal y Parchedig Marcus Robinson. Cydymdeimlwn yn gywir gyda holl berthnasau Buddug.

Llongyfarch

Mae'n bleser clywed am lwyddiant pobl ifanc y pentref. Llongyfarchiadau i ddechrau i Lowri E. Owen, 90 Cae Glas. Am y tair mlynedd ddiwethaf bu Lowri yn dilyn cwrs gradd mewn Ffotograffiaeth yng Ngholeg Casnewydd. Y mae'n awr wedi ennill gradd mewn Ffotograffiaeth Gelfyddydol a bydd yn derbyn ei gradd mewn seremoni yng Nghasnewydd ar 6 Medi. Ei bwriad yn awr yw sefydlu busnes tynnu lluniau; lluniau pobl, plant, priodasau ac yn y blaen. Mae cisoes wedi sefydlu gwefan. Gellir cysylltu â hi ar www.imagesbylowriellen.co.uk.

Pleser hefyd yw llongyfarch Tomos Owens, 2 Carreg y Gath. Bu Tomos yn dilyn cwrs blwyddyn ar Beirianneg Cwrbydau Trwm (HGV) yng Ngholeg Menai, Llangefni. Ar ddiwedd y cwrs dyfarwydd iddo safon Anrhydedd oherwydd ei waith dros y flwyddyn.

Bwriad Tomos yw parhau yn y Coleg am ail flwyddyn gan ddilyn cwrs weldio creadigol.

Dymunwn yn dda i Lowri a Tomos at y dyfodol.

Cronfa Eisteddfod yr Urdd, Rhiwlas a Phentir

Casglwyd y swm anhygoel o £3,548 gan y criw bychan a fu'n gyfrifol am gasglu tuag at Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon.

Maent yn haeddu pob clod am eu hymdrech ddiflino. Mae lle i ddiolch hefyd i bawb a gyfrannodd i'r ymgyrch mewn unrhyw ffordd ac i holl drigolion y ddwy ardal am eu haelioni.

Priodas

Llongyfarchiadau i Siwan Haf, Bwthyn Cefn Braich gynt, ar ei phriodas â Iolo Gwyn Williams o Langwyllog, Ynys Môn ar Fehefin 3. Priodwyd y ddau yn Neuadd Ercwlff, Portmeirion lle roedd dwy o ffrindiau bore oes Siwan o Rhiwlas yn bresennol, sef Sali a Gwenno, a chafodd y gwesteion flas arbennig ar y gacen briodas hyfryd yr oedd Sali wedi'i choginio ar gyfer yr achlysur.

Mae Siwan ac Iolo wedi ymgartrefu yn Y Felinheli lle mae'r ddau'n aelodau o Gôr Cyntaf i'r Felin, a chanwyd eitemau amrywiol gan y côr yn ystod y seremoni.



Llun: Panorama Cymru

Priodas Siwan a Iolo

Y diwrnod canlynol mwynhawyd parti dathlu yn Neuadd Hendre, Tal-y-bont. Treuliodd y ddau eu mis mêl ar Ynys Mauritius.

Pob dymuniad da i Siwan ac Iolo wrth iddynt gychwyn ar eu bywyd priodasol.

Hysbysebwnch
eich gweithgareddau
AM DDIM
yn y Llais!

Cysylltwch â Neville Hughes
☎ 600853

Fflat ar rent yn Stryd Fawr, Bethesda.

Dwy lofft, cegin fawr, ystafell fyw helaeth, ystafell ymolchi (cawod ddwbl). Lle parcio cyfagos.
£370 y mis. ☎ 07902 362 213

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Gair o ddiolch

Dymuna Margaret, Dwynwen, Rhian, Menna, Dilwyn a Dylan a theulu'r diweddar Elfrys Price Jones, 27 Bro Syr Ifor, Tregarth, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y cardiau a'r rhoddion ariannol a gasglwyd at elusennau NSPCC a 'Help for Heroes'. Diolch arbennig i'r Parchedig Dewi Morris ac i'r meddygon a staff Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i'r nyrsys ardal Meddygfa Bethesda, i swyddogion Capel Shiloh ac i Stephen Jones am y trefniadau trylwyr.

Profedigaeth

Yng nghartref ei merch, 33 Ffordd Tanrhiw, ar Fchefin 17, bu farw Norah Elizabeth Thomson (Gashe gynt, o Rachub) yn 92 mlwydd oed. Gweddw y diweddar John ac yn fam, nain a hen-hen nain i amryw. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor a chydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn gydag Alan Doyle a'r teulu, Bro Syr Ifor, yn y brofedigaeth o golli ei fam, sef Mrs Mary Doyle. Hefyd gyda wyres Mrs Doyle, sef Catrin, Brian a'r teulu, Pant Têg, Tregarth.

Daeth profedigaeth i ran teulu Sherrington, Llidiart Dŵr, Tregarth. Ym marwolaeth Emlyn Sherrington, Rachub, collwyd tad, tad yng nghyfraith a thaid. Yr un yw'r cydymdeimlad i chwithau fel teulu.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mrs Edith Hughes, Erw Faen. Mae Mrs Hughes yn nain ac yn hen nain i nifer o blant os erbyn hyn ac mae un bach newydd wedi'i eni'n ddiweddar. Ganed Erin Eos, merch fach i Rhodri ac Alys ym Mis Mai yng Nghaerdydd, a chwaer fach digon o sioe i Arthur. Mae wyneb Rhodri, sy'n fab i Arwel Hughes a'i briod yn yr Wyddgrug, yn wnech cyfarwydd iawn ar y teledu, sef yr enwog Rapsaliwn. Llongyfarchiadau i chi i gyd fel teulu.

Llwyddiant Academaidd

Llongyfarchiadau i Catrin Mair Roberts, merch Enid a Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Tregarth, ar lwyddo yn ei arholiadau gradd ym Mhrifysgol Bangor, sef Anrhydedd mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol.

Priodas

Ar Fai 17 yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth bu priodas Rhian Wyn, merch Dafydd a Caryl Pritchard, Sling, gyda Siôn Lloyd Morton Pritchard o Ynys Môn. Llongyfarchiadau a dymuniadau da i'r ddau ohonoch.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Margaret ac Oscar Jones, Cae Drain, am ddod yn Nain a Taid i ferch fach, Margiad Ann, a aned i'w merch Jên Margiad a'i phriod Richard Temple Morris, Tan y Garth, Bethesda, Dydd Mawrth, Gorffennaf 3, yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Chwaer fach i Ithel, Idwal ac Idris John. Llongyfarchiadau i chi i gyd fel teulu.

EGLWYS Y SANTES FAIR, Tregarth

Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi er budd yr eglwys yn Neuadd Ogwen ar 21 Gorffennaf o 10.00 y.b. ymlaen. Bydd stondinau arferol a raffl

Clwb Cant Y Gelli

£20	39 Paul Smith
£10	78 Oscar Jones
£10	80 Glenys Morgan
£ 5	62 Gareth Pritchard

CAPEL SHILOH

Oedfaon gyda'r nos am 5.30 a'r Ysgol Sul am 10.30 oni nodir yn wahanol

Gorffennaf

- 15 Ysgol Sul olaf cyn cau dros wyliau'r Haf
Parchedig W.R Williams,
Y Felinheli
- 22 Y Parchedig Philip Barnett,
Deganwy
- 29 Mr Glyn Owen

Awst

Dim Oedfaon

Medi

- 2 Parch. Gwynfor Williams
- 9 Ysgol Sul yn ail agor am dymor newydd
Mrs Ellie Jones, Tregarth
- 16 Ysgol Sul
Diacon Stephen Roe
- 23 Ysgol Sul
Parchedig Geraint Roberts,
Porthachwyl
- 30 Ysgol Sul
Mr J.O Roberts, Bethesda

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Gorffennaf

47 Janice Doyle	£15
22 Gwenda Davies	£10
62 Megan Davies	£ 5

Eisteddfod yr Urdd Eryri

Bu nifer dda o blant ac ieuencid Tregarth yn brysur dros ben yn Eisteddfod yr Urdd Eryri, yng Nglynllifon ddechrau Mis Mehefin. Llongyfarchiadau i chi i gyd. Mae'n siŵr i chwi elwa llawer o'r profiad ac i chi fwynhau pob munud o'r ymarferion a'r perfformio. Dyma eu henwau. Os oes enwau ar goll rhwch wybod os gwelwch yn dda.

Esme Crowe a Huw Morris Jones - Aelodau o'r sioe Ysgolion Cynradd 'Ar gôf a chadw'; Aziliz Kervegant - Cân Actol a Chôr Ysgol Llanllechid; Huw Morris Jones, Elwen Evans a Mia Roberts - Cyflwyniad Dramatig buddugol Ysgol y Garnedd, Bangor; Tomos Morris Jones a Daniel Glyn - Aelodau o Fand Jazz Ysgol Tryfan, Bangor; Gwenno Kervegant - Ail Wobr yn chwarae'r soddgrwth gyda thriawd offerynnol Ysgol Tryfan, Bangor; Lea Glyn a Manon Owen - aelodau o Gân Actol Ysgol Tryfan, Bangor ac aelodau o'r Sioe Ieuencid 'Sbri'; Elin Gwyn - aelod o'r criw oedd yn cyflwyno Ngecs Ewyllys Da yr Urdd; Lois Glyn - Trydydd Wobr Llenyddiaeth dan 19; Buddug Roberts - Ail am lenyddiaeth blwyddyn 7; Gruffudd Jones - Gwaith Celf.

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Ar noson wlyb a gwyntog ym Mis Mehefin bu aelodau o gangen Tregarth ar eu taith flynyddol. I Winllan Pant Du, Penygroes yr acth y daith eleni ond gan fod y glaw a'r gwynt mor echrydus y noson honno ni chawsom gyfle i weld ysblander y lle a Dyffryn Nantlle ar ei orau. Yn syth o'r bws i'r bwyty ac yno roedd croeso cynnes yn ein disgwyl. Roedd Richard, y perchennog wedi ymweld â'r gangen ar ddechrau'r flwyddyn felly roeddem wedi cael blas ar hanes sefydlu'r busnes, heb sôn am gael blas o'r sudd afal pefriog a llongydd sy'n cael ei gynhyrchu yn y winllan.

Mwynhawyd pryd o fwyd ardderchog yn y caffi newydd sydd ond wedi agor ers rhai wythnosau a barn pawb oedd y byddent yn dychwelyd cto am bryd o fwyd, pan fydd y tywydd wedi gwella, er mwyn cael gweld y winllan yn ei holl ogoniant. Cawsom samplu'r seidar sydd hefyd yn cael ei gynhyrchu o'r afalau sy'n tyfu ar y llethrau yn Nyffryn Nantlle. Diolchwyd i Allison a Myfanwy am wneud yr holl drefniadau ac i Iona a'r staff am eu croeso cynnes i ni fel cangen. Bydd y gangen yn ail gyfarfod ddechrau Mis Medi, ar nosweithiau Llun cyntaf y mis yn Festri Capel Shiloh am 7o'r gloch.

O'r Cyngor

CYNGOR CYMUNED PENTIR

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yng Nghanolfan Glasinfryn gyda'r Cyng. Dewi Jones yn cadeirio.

Cyfarfod A4244

Adroddodd y Cyng. Lowri James fod cyfarfod wedi ei drefnu yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd ar Fchefin 15, i drafod cyflymder ar y ffordd yma drwy Bentir. Mae'r cyfarfod yma yn dilyn cyfarfod a gafwyd ar y safle ym mis Mai.

Sedd Wag

Derbyniwyd un cnw ar gyfer ei ystyried i lenwi sedd wag yn ward Pentir/Glasinfryn sef Hugh Griffith, Penybryn, Waen Wen. Penderfynwyd cyfethol Mr Griffiths i lenwi'r sedd a'i wahodd i gyfarfod mis Gorffennaf o'r Cyngor.

Canolfan Glasinfryn

Gan fod y ddau ymddiriedolwr wedi gadael y Cyngor bydd angen penodi dau newydd yn eu lle yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

Cais Tŷ Coch, Glasinfryn

Atgoffodd y Cyng. Dewi Jones ni fod gwrandawriad i Apel cais Tŷ Coch i'w gynnal ar 26 Mehefin, 2012 a bod gan aelodau'r Cyngor yr hawl i'w fynychu.

Ysgol Coed Menai

Derbyniwyd adroddiad ar argymhellion i newid y drefn a chau yr ysgol hon. Adroddodd y Cyng Alwyn Rowlands fod angen gwariant mawr ar yr adeilad i'w addasu ar gyfer yr amser presennol. Argymhelliaid Gwynedd yw cau'r ysgol ac i gyngorhau Ynys Môn a Chonwy wneud eu trefniadau eu hunain. Dywedodd y Cyng Catrin Elis Williams fod yr argymhellion yn decach i drigolion Gwynedd ac hefyd i ardalywyr Meirionnydd. Credai fod y ddarpariaeth ar gyfer merched yn llawer gwell dan yr argymhellion newydd yma.

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mehefin yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cyngorydd Dafydd Owen yn y gadair.

Cafwyd ar ddeall fod y Cyngor Sir yn archwilio'r broblem ysbwriel yng nghyfeiriad Lllys y Gwynt a byddir yn dwyn sylw hefyd at ysbwriel ar y ffordd i gyfeiriad y Clwb Rygbi.

Mae'r Uwch Warden Cefn Gwlad yn ymdrin â phroblem carthion ceffylau ar y Lôn Las. Mae gwaith clirio dŵr ac yn y blaen oddi ar rai o'r llwybrau yn bwrw ymlaen yn ogystal â gwaith torri llystyfiant.

Gwnaethpwyd cais i'r Cyngor Sir am ddarpariaeth i arafu trafniadaeth ac am fwy o lampau ar y ffordd B4409 o gyfeiriad Hen Dyrpeg tuag at y chwarel. Gwnecir ymholiadau am fwy o lochesi bws a safleoedd aros.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Wythnos fawr Pentir yn 'Steddfod yr Urdd

Ni fu cymaint o wibio 'nôl a 'mlaen rhwng Pentir a Glynllifon erioed ag oedd yn ystod wythnos 'Steddfod yr Urdd – bron nad oedd y ceir yn gyrru'u hunain ac eto roeddem yn ffodus - ddaru'r bobl ifainc gyraedd pob un o'u digwyddiadau a chystadlaethau mewn amser!

Llongyfarchiadau i Marteg Dafydd ar ddod yn gyntaf ar yr unawd telyn dan ddeuddeg ac i Leah a Marged Huws, Creigrfyn ill dwy ar ddod yn ail yn y cystadlaethau ysgrifennu rhyddiaith yn eu categorïau oed perthnasol.

Cafodd Marged hwyl arbennig ar gymryd rhan yn Sioe Ieuencid y 'Steddfod 'Sbri' a berfformiwyd yn y Galeri, gyda Lewys Wyn yn chwarae ym mand y sioe ac ynghyd â Leah a Wesyn Dafydd roedden nhw'n brysur yn perfformio ffanffer ar lwyfan y 'Steddfod yn ystod y prif seremonïau bob dydd. Cawson nhw hefyd, ynghyd â Menai Lamers James, ddiddanu eisteddfodwyr trwy berfformio gyda Band Jazz Ysgol Tryfan yn y cyngerdd a'r seremoni agoriadol yn ogystal â chystadlu a dod yn drydydd yng nghystadlaethau bandiau/ cerddorfeydd o dan 25.

Un uchafbwynt arbennig iddynt oedd perfformio darn a gyfansoddwyd gan Einion Dafydd gyda Glain yn chwarae'r delyn, o'r enw 'Treiglo'r Maen' yn y cyngerdd agoriadol. Pe bai rhywun wedi mynychu'r cystadlaethau roc a pop ar y llwyfan tu allan ar y maes byddent wedi gweld Leah yn cyflwyno'r bandiau a oedd yn cystadlu. Ddarw Cedol Dafydd hefyd fwynhau cymryd rhan ym mhasiant plant yr Eisteddfod ac mae llwyddiant wedi'i gyrraedd yntau gan ei fod wedi dod yn gyntaf ar chwarae'r trombôn a'r piano yn 'steddfod Môn yn ddiweddar.

Bwyta mochyn

Ia, cafodd mochyn blasus ei fwyta yn y Soch Rhost diweddar a mwynhaodd pawb yr arlwy fendigedig o salad a bwyd llysiuol – digonedd i borthi'r chwant bwyd mwyaf. Goleuodd llygaid pob un o fynychwyr y barbeciw blynyddol pan welson nhw'r amrediad pwddinâu gogoneddus – faint o weithiau y clywyd y geiriau 'mac fy llygaid yn fwy na fy mol'? Yn gefndir braf i'r bwyd gwyh a'r sgwrsio diddan cafodd pawb werthfawrogi'r gerddoriaeth a ddarparwyd gan 'The Shoreliners'. Achlysur penigamp unwaith eto ac oll i godi arian hanfodol ar gyfer Tŷ Gobaith. Diolch yn fawr i deulu Bryn Meddyg am gael defnyddio'u cae, i'r pwyllgor am drefnu ac i bawb am eu cefnogaeth. Da oedd gweld bod hwyliau trigolion Pentir a chefnogwyr y barbeciw dal yn dda serch y tywydd anwadal – ymlaen â ni at y flwyddyn nesaf!

Dymuno gwellhad

Anfonwn ein cofion at Pat Jarvis, Bro Infryn, Glasinfryn, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd a Pat Cook, Rhyd y Groes, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Walton, Lerpwl. Brysiwch wella eich dwy.

Te Prynhawn

Cynhelir prynhawn o sbri Dydd Sadwrn y 21 Gorffennaf am 2.30 y prynhawn yn Glyn Cottage, Nant Y Garth. Bydd lluniaueth, stondinau, raffl a adloniant. Croeso cynnes i bawb.

Caws a Gwin

Cynhelir noson o Gaws a Gwin nos Sadwrn 15 Medi am 6.30 yr hwyr yn Neuadd Bentref Rhiwlas, Croeso cynnes i bawb

Gardd Agored

Ar brynhawn dydd Sadwrn y 7fed o Orffennaf agorodd pedair gardd ym Mhentir i'r cyhoedd o dan y Cynllun Gerddi Cenedlaethol.

Gwahoddodd perchnogion gerddi Tŷ Uchaf a Bryn Meddyg yn sgwâr Pentir a rhif 1 a 2 Rhyd y Groes aelodau o'r cyhoedd i ddod yno, a manteisiodd dros 159 o bobl ar y cyfle. Gwerthwyd te a coffi a chacenau a chasglwyd cyfanswm o £918.00 ar gyfer elusennau nyrsio - er enghraifft Nyrsus Macmillan. Roedd yn amlwg fod pawb wedi mwynhau ac roedd y tywydd cynnes a sych yn help mawr.



'The Shoreliners' yn Soch Rhost Pentir...



... a'r plant yn mwynhau

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 Mis Mehefin 2012:

Iaf Rhif 60
Laura Hosker, Deiniolen
Ail Rhif 17
E Valerie Amos, Bethesda
3ydd Rhif 44
Margaret Griffith, Caerhun

OWEN'S TREGARTH Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475

pandv.owen@btinternet.com

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod o bwyllgor gwaith Plaid Lafur Arfon ar ddechrau mis Mehefin, i drafod etholiadau'r Cynghorau a dechrau paratoi ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu. Penderfynwyd gofyn am enwebiadau ar gyfer anfonnog, a fydd yn ferch eleni, i gynhadledd Plaid Lafur Prydain.

Ar ddiwedd y mis cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen gan ethol yr un swyddogion a chynrychiolwyr a'r llynedd. Da oedd clywed am lwyddiannau'r gangen dros y flwyddyn, e.e. taith gerdded noddedig Lynn Ashton ar hyd Clawdd Offa. Hefyd, penderfynwyd anfon cynrychiolwyr i helpu i blygu Llais Ogwan unwaith eto.

Cynhelir bore coffi blynyddol y gangen yn Neuadd Ogwen ar 8 Medi, lle bydd mygiau a beiros newydd y Plaid Lafur ar werth. Croesewir unrhyw gyfraniad at y raffl, y stondin bric-a-brac a'r stondin teisennau/caccennau ac yn y blaen.

NID OES

BRADWR

YN Y CRYST HWN.

Mae 111 o flynyddoedd ers i'r cardiau enwog 'Nid Oes Bradwr yn Tŷ Hwn' ymddangos yn ffenestri Bethesda. Er mwyn coffau hynny mae Pedsa Roc wedi creu crysau- newydd, 'Nid Oes Bradwr yn y Crys-T Hwn.' Maent yn hynod o boblogaidd ac ar gael yn nosweithiau Pedsa Roc a Siop Kath, Pedsa.

Y digwyddiad "Mawr" nesaf sydd ar y gweill yn y Dyffryn yw Pedsa Roc 2012 wrth gwrs, gydag amrywiaeth o weithgareddau o Dalwrn y Beirdd i Ffair Recordiau, yn ogystal a Thlws Les Morrison a roddir ym mrwydr y bandiau. Rydym yn croesawu unrhyw fandiau sydd â diddordeb mewn cystadlu; byddant yn cael y fraint o berfformio cyn Geraint Jarman ar nos Wener yr ŵyl. Yn ogystal ag adloniant boblogaidd bydd noson mwy traddodiadol gyda Chôr Meibion y Penrhyn, y Boncathod a Hogiau'r Bonc. Mae'r manylion i gyd ar y poster ar dudalen gefn y rhifyn hwn o'r Llais.

Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen

Yng nghyfarfod mis Mehefin o'r gangen croesawyd y wybodaeth bod rhagor o drigolion lleol wedi eu cofrestru yn aelodau newydd. Cafodd yr ysgrifennydd ohebiaeth o swyddfa Leanne Wood, yng Nghaerdydd, i ddweud ei bod yn awyddus i ddod atom ni fel ein siaradwraig wadd yn ein cyfarfod blynyddol ym mis Chwefror. Bydd mwy o fanylion i ddilyn.

Cymeradwywyd llythyr gan Fenter Iaith Dyffryn Ogwen yn gofyn i Zip World roi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg yn eu menter busnes yn y chwerael a bod bwriad ganddynt i gyflogi'n lleol. Anfonodd Cadeirydd y gangen lythyr i'r un perwyl at Gwmni Tesco, sy'n agor siop yn y pentref, ond ni dderbyniwyd ateb eto.

Derbyniwyd gyda llawenydd y newyddion fod Neuadd Ogwen i dderbyn grant sylweddol gan y loteri. Llongyfarchwyd Cwmni Tabernacl, ac yn arbennig y Cynghorydd Dyfrig Jones, sydd yn ysgrifennydd y Cwmni, ar ei waith aruthrol a'i ddyfalbarhad, heb sôn am oriau digwsg, yn llunio'r cais llwyddiannus.

Byddwn yn trafod cynigion i'r Gynhadledd yn ein cyfarfod nesaf a gynhelir ar Orffennaf 31ain.

Nosweithiau Cawl a Chân



Siân James yn canu mewn noson wych yn Neuadd Ogwen ar nos Wener, 6 Gorffennaf

Mae Cwmni Tabernacl wedi bod yn brysur iawn yn trefnu cyfres o nosweithiau Cawl a Chân yn Neuadd Ogwen gydag 'Enwau Mawr' y sîn roc Gymraeg yn ymddangos. Mae Bethesda wedi ennill enw da ymysg cerddorion Cymru fel lle y maent yn cael gwrandawriad gan y gynulleidfa. Roedd y nos Wener yng nghwmni Siân James ar 6 Gorffennaf yn un arbennig iawn, a phawb yn gwrandawrio ar bob nodyn. Cyn i Siân berfformio roedd cyfle i gymdeithasu dros bryd o fwyd; roedd hi'n noson wych. Edrychwn ymlaen felly at groesawu Lleuven yn ôl atom unwaith eto ar y 3ydd o Awst. Bydd Caffi Coedy-Brenin yn darparu pryd o fwyd a bydd croeso cynnes i bawb. Tocynnau yn £10 o Siop Kath neu ar y drws yn Neuadd Ogwen.

Dydd Mercher, 11 Gorffennaf roedd criw Lol Pedsa yn Ysgol Dyffryn Ogwen wedi trefnu gig yn neuadd yr ysgol. Perfformiodd Al Lewis a'r Band yn ystod amser cinio ac roedd yn llwyddiannus dros ben. Bydd pwyllgor iau Pedsa Roc, Lol Pedsa, yn mynd ymlaen i drefnu rhagor o gîgs a gweithgareddau yn yr ysgol.

Newyddion o Rwsia

Dydd Llun Mehefin 18fed bu angladd Awgwsta lfanofna Mafraefa yn 72 mlwydd oed. Prifathrawes 'Ysgol 39' oedd hi, a ymwelodd ag Ysgol Penybryn yn ystod Haf 1990.

Pedair athrawes a deg o blant, yn ymweld â'r Gorllewin am y tro cyntaf wedi dymchwel Wal Berlin. Aeth yr un nifer o Ysgol Penybryn draw i ymweld â Rwsia yn ystod yr Ebrill blaenorol. Erbyn heddiw y mae Kazan wedi ei thrawsnewid, o'i gymharu a'r lle llwm a oedd yn bodoli yr adeg hynny.

Gwelir gwestai aml lawr moethus a thai bwyta gyda'r gorau yn Ewrop. Hefyd nifer o arch-farchnadau, sawl canolfan siopa a nifer o lefydd bwyta Macdonalds bondigrybwyll. Y mae byrgars, sglodion a saws coch yn hen ffefryn gan blant Kasan erbyn heddiw.

Er ffyniant Kasan, fel arall oedd hi i Awgwsta. Bu farw ei mab yn ystod y nawdegau a bregus oedd ei hiechyd wedyn.

Oherwydd hyn, bu rhaid ymddeol ar ddiwedd y nawdegau a byw ar bensiwn bychan iawn. Yn ffodus yr oedd cyn-ddisgyblion a chyfeillion a oedd wedi elwa ar addysg Ysgol 39 efo swyddi breision tramor ac yn Rwsia yn ceisio ei helpu allan.

Nid oedd ganddi deulu agos, serch hynny rydw'i ar ddeall bod nifer fawr o athrawon a chyn athrawon Ysgol 39 yn yr angladd. Hefyd yr oedd nifer fawr o gyn-ddisgyblion a chyfeillion wedi dod yno i dalu teyrnged i un a oedd yn fawr ei pharch.

Arfon Evans

Croesair Gorffennaf / Awst 2012

AR DRAWS

1. Sylwgar a chraff. (7)
5. Pa amser gawn ni fwyta? (4)
9. Newid, am nad oes un peth byw yn aros yr un fath. (8)
10. To bach, cfallai. (4)
11. Gwlad Beethoven, Bach, Handel a Mozart. (6)
13. Gweithio cyfanswm. (4)
15. Yn ddjarhebol, yng ngheg hwn mae dechrau cynifo. (3)
17. Efaill Loli yn un o nofelau 'brenhines ein llên'. (5)
19. Dyn o G'nafron! (2)
20. Dafydd --, yr Arglwydd Thomas. (2)
21. Go lew. (5)
23. Mae min ar 16 I Lawr pan fydd yn groes. (3)
26. Llinach (4)
27. Awdl fuddugol y prifardd Gerallt yn 1975. (2,4)
30. 'Cwmni Bysiau Clynnog & Trefor' yn swyddogol, ond '---- coch' ar lafar gwlad. (4)
31. Gwneud i'r tir droi yn forfa neu rostir. (8)
32. Medr. (4)
33. Mae'n benderfynol fod diwedd y Sais yn y cwm. (7)

I LAWR


2. Sut ym yn sefyll. (5)
3. Na welwyd ei fath crioed o'r blaen. (8)
4. Fel 2 i Lawr. (4)
6. Mae'n siwr fod cannoedd ohonynt wedi cael eu defnyddio yn Wimbledon y mis yma. (6)

7. Dyma oedd 'Merched' Beca yn ystod yr helyntion yn 1843. (6)
8. Fe gawn fod llawer iawn yn 27 Ar Draws. (5)
12. Ateb negyddol. (2)
13. Un haearn sydd gan y sant yma o gyrion Llŷn. (3)
14. Wedi mendio. (3)
16. "O na ddeuai --- im suo, O Garn Fadryn ddistaw bell". (Cynan) (3)
17. Dyma amser y creu yn ôl yr adnod gyntaf un. (8)
18. Llauer o dda godro. (3)
19. Math o letus. (3)
21. Ych-a-fi, troi fy -----! (6)
22. Coch neu hugan. (6)
24. Ovum (Llad.) (2)
25. Yn draddodiadol, dyma ddau air cyntaf llawer o chwedlau a straeon i blant. (2,3)
28. Cariad neu wraig 19 Ar Draws. (5)
29. Bonllaf o gymeradwyaeth. (4)

ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2012

AR DRAWS 1. Pam; 3. Mac; 5. Tydi; 8. Ymson; 9. Llygoden; 10. Gosodwr; 12. Eleri; 13. Roy; 15. Agwedd; 17. Noe; 19. Tywydd; 20. Pinocio; 23. Y Corgwn; 24. Drewi; 25. Piau; 26. Ogo; 27. Awn.

I LAWR 1. Pwyllgor; 2. Moses; 3. Munud; 4. Collwr; 5. Tagfeydd; 6. Dodrefn; Enwi; 11. Wag; 14. Ymwroli; 15. Arddegau; 16. Eli; 18. Emosiwn; 19. Tryc; 20. Pwnio; 21. Nodio; 22. Clera.



Y camgymeriad mwyaf cyffredin y tro hwn oedd cynnig 'Y Corgis' yn lle 'Y Corgwn' a 'Pwsio' yn lle 'Pwnio'. Hefyd cafwyd 'Eleni' yn lle 'Eleri', 'Odl' yn lle 'Ogo' a 'Nodol' yn lle 'Nodio'. Ond llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am atebion hollol gywir: Gareth a Sara Oliver, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; Rita Bullock, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gareth W. Jones, Bow Street; Karen Williams; Elfed Evans, Llanllechid; Dilys A. Pritchard-

Jones, Abererch; Jean Vaughan Jones; Heulwen Evans, Rhiwlas. Ond ar y brig y tro hwn y mae Doris Shaw, 26 Llwyn Hudol, Bangor ac iddi hi yr aiff y wob. Da iawn chi! Wel dyna hi'n wyliau haf unwaith eto a'r croesair yn cael seibiant tan fis Medi. Diolch i chi am gefnogi drwy'r misoedd, gan obeithio y gwelwn y ffyddloniaid eto ym Medi, a chroeseirwyr newydd gobeithio.

Atebion erbyn dydd Mercher, 5 Medi os gwelwch yn dda.

Enw:

Cyfeiriad:

'Croesair' Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig

Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon



CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon



CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Beth sydd ymlaen yn y Dyffryn?

**NEUADD OGWEN,
BETHESDA**

BOREAU COFFI



28 Gorff: Neuadd Talgai
04 Awst: Cronfa Tracy Smith
11 Awst: Clwb Bowlio
18 Awst: Neuadd Talgai
01 Medi: Gŵyl Afon Ogwen
08 Medi: Plaid Lafur Dyffryn Ogwen
15 Medi: Eglwys St Ann / Mair
22 Medi: Eisteddfod Dyffryn Ogwen

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

Taith Gerdded Flynyddol

Llyn Ogwen i Fethesda

21 Gorffennaf 2012. Bws i Llyn Ogwen o'r Clwb Rygbi am 11.30

Bydd cyfle am bicnic ar y daith

Bydd yr arian a godir yn cael ei rannu rhwng Mudiad Canser a Lwcemia mewn plant (Ysbyty Gwynedd), HYAS (Hawliau Plant) gyda chyfraniad at daith Mali Parry Owen i Hondwrass i wneud gwaith gwirfoddol.

Manylion gan Raymond neu Ann ar 01248 601077

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Bore Coffi

yn

NEUADD OGWEN

Dydd Sadwrn 8 Medi

10.00 - 12.00

Stondinau, raffl ayyb

Mynediad 50c.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs

Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00

Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs

Douglas Arms Bethesda

20.00 – 21.00

Trydydd Nos Lun pob mis

28 Gorffennaf 2012

1.00pm – 4.00pm

Garddwest Tair Eglwys

Yn y Ficerdy, Pentir

Gweithgareddau a chwaraeon i blant.

Addurno wynebau,

BBQ, Mefus a Hufen, Lluniaueth, Boddîr Ficer, Raffl, Cystadleuaeth, Stondinau (gan gynnwys Cacennau, Planhigion, Tombola, Crefft, Llyfrau, CD's, Celf, Bron yn Newydd)

Digon o le i barcio

Oedolion: £1.50 Plant £0.50

Croeso cynnes i bawb!!!

Derbynnir cyfraniadau tuag at yr achos!

NEUADD OGWEN

BETHESDA

GYRFA CHWIST

24 a 31 Gorffennaf

14 a 28 Awst

11 Medi

am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr



11 Awst ac 08 Medi
Marchnad Cynnyrch Lleol

Llys Dafydd, Bethesda
LL52 3LU

10.00 – 2.00

www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market

Clwb Celf yr Haf



Gweithdai celf i blant 3-12 mlwydd oed gan arlunydd a dylunydd tecstilïau lleol, Anna Pritchard.

Cyfle i blant sydd â diddordeb mewn celf i greu gwaith creadigol, lliwgar a chyffrous. Cyfle i gael hwyl gyda deunyddiau ac arbrogfï gyda gwahanol dechnegau.

Creu hwyliau a fflagiau	1 Awst 2012
Creu ac addurno pwced lan y môr	8 Awst 2012
Peintiadau a gwehyddu	15 Awst 2012
Dylunio ac addurno gwisg nofio	22 Awst 2012

Lleoliad: Canolfan Gymunedol Glasinfryn, ger Bangor

Sesiwn bore: 10:00yb - 12:00yp i blant 3 - 7 mlwydd oed (rhiant neu warchodwr i fod yn bresennol)

Sesiwn prynhawn: 1:00yp - 3:00yp i blant 8 - 12 mlwydd oed

I archebu lle cysylltwch â Anna: 0781 050 4939

Clwb Ffermwyr Ieuanc Dyffryn Ogwen

Mae'r ddau fis diwethaf yma wedi bod yn rhai prysur iawn i Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen, gyda phawb yn paratoi ar gyfer Rali Ffermwyr Ieuanc Eryri eleni. Ar Fai 26 roedd y Rali yn cael ei chroesawu gan Glwb Ffermwyr Ieuanc Porthdinllaen ar Fferm Dyffryn, Dinas, Pwllheli. Thema'r flwyddyn hon oedd 'Y Briodas Fawr'. Roedd yna lawer iawn o wahanol gystadlaethau yn mynd ymlaen trwy'r dydd, o greu ffrogiau priodas allan o bapur newydd i addurno car i gwpwl oedd newydd briodi. Cafodd aelodau Dyffryn Ogwen lwyddiant yn rhai o'r cystadlaethau - Emily Pritchard a Bryn Roberts yn cael yr ail wobwr am wisgo'r briodferch, a hefyd Catrin Griffiths a Gethin Harper yn dod yn 4ydd yn y gystadlaethu coginio - Da iawn chi! Diolch i'r holl aelodau am eu gwaith caled dros y ddau fis diwethaf ac ar y diwrnod mawr hefyd. Roedd digon o hwyl i'w gael yn y ddawns gyda'r nos yng nghwmni DJ Bustach a'r Moniars i ddathlu gwaith caled pawb.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y clwb ar nos Fawrth, Mai 29ain yn y Caban, Gerlan. Etholwyd swyddogion ar gyfer y tymor 2012/13 a thrafodwyd syniadau ar gyfer y rhaglen. Er bod Sioe Dyffryn Ogwen wedi ei chanslo oherwydd y tywydd cynhaliwyd gig yn Neuadd Ogwen, gyda'r Bandana a Bryn Fôn yn chwarae



Y car wedi ei addurno ar gyfer y par priod.



Dau o'r aelodau yn mwynhau'r ddawns



Llinos yn edrych yn ddigon o ryfeddod yn ei ffrog briodas wedi ei chreu o bapur newydd.

CALENDR LLAIS OGWAN 2013

Dydy amser yn hedfan! Mae hi'n amser meddwl am Galendr Llais Ogwan eto, un 2013. Felly, os oes gennych luniau rydych yn meddwl fyddai'n addas i'r calendr, neu os ydych am geisio tynnu rhai yn ystod yr wythnosau nesaf, fe fyddwn yn falch iawn o'u derbyn. Rydym am geisio rhoi blaenoriaeth yn y calendr nesaf i luniau sy'n adlewyrchu Gwaith a Hamdden yn Nyffryn Ogwen, ond nid oes raid i'ch lluniau ddilyn y thema honno – llun diddorol a da sy'n bwysig – byddwn yn ystyried pob un.

Felly, chwiliwch yn eich casgliad, neu fynd allan efo'r camera yn yr wythnosau nesaf dros yr haf – os cawn un! Gyrrwch y lluniau – yn electronig, os yn bosibl (ond nid o reidrydd), i: Dafydd Fôn Williams 14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan, LL57 3TR dafydd@gerlwn.wanadoo.co.uk

Diolch yn fawr iawn. Edrychwn ymlaen at dderbyn y lluniau

Pwyllgor Apêl Eryri 2012 yn taro'r nod!

Pan sefydlwyd y pwyllgor lleol yn 2010 i godi arian at Apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri, roedd Mehefin 2012 yn ymddangos ddigon pell i ffwrdd, ond roedd y targed a osodwyd i ardal Bethesda, Gerlan, Rachub a Llanllechid – sef £19,000 – yn golygu nad oedd unrhyw obaith cael cychwyn yn hamddenol! Sut y gellid mewn difri wireddu'r fath uchelgais, a hynny o gofio fod gan bentrefi eraill y Dyffryn cu targedau cu hunain hefyd?

Trwy waith caled, a haelioni digyffelyb pobl yr ardal, cyrhaeddwyd y targed heriol, a gyda peth arian yn parhau i gael ei dderbyn, ei ragori.

Hoffai'r Pwyllgor Apêl ddiolch i bawb a fu'n ein cynorthwyo i gyrraedd y nod, ac yn arbennig yr unigolion a sefydliadau a gyfrannodd mor hael gyda'u rhoddion a'u hamser. Hyd yma, mae'r ardal wedi casglu £19,552.73, a gyda'r ffigwr yn parhau i gynyddu, yn sier dyma rywbeth i ymfalchïo ynddo. Dyma ddadansoddiad o sut yr ydym wedi casglu'r swm:

Rhoddion 6,908.77

Cyngherddau:

Cyngerd y Plant Gorffennaf 2010	899.24
Cyngerd y Plant Mehefin 2011	1,122.80
Cyngerd Nadolig Rhagfyr 2011	894.80
Gig Teulu, Rhagfyr 2010	786.04
Elw Gig Hogia'r Bonc / Martin Beattie	145.00

Boreau Coffi:

Bore Coffi 12 Chwefror 2011	358.43
Bore Coffi 18 Mehefin 2011	329.32
Bore Coffi 4 Chwefror 2012	307.52
Bore Coffi 7 Ebrill 2012	209.67
Cyfraniad gan Bore Coffi Plaid Lafur	288.70

Elw Perfformiadau:

Merched Eira	243.71
Un Fach Flewog	224.50
Un Nos Ola Leuad	822.50
C'mon Midlaiff	766.00

Eraill:

Darparu Lluniaeth ar gyfer y Marathon Mynydd	1,364.16
Elw'r Clwb Cant	1,346.50
Elw Gwerthiant Nwyddau Eryri 2012, Byrbrydau, Cardiau a.y.b.	313.24
Pacio bagiau yn Tesco	189.39
Elw'r Sioe Ffasiwn	177.13
Darparu Lluniaeth yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen 2011	657.44
Sgwâr Siôn Corn	69.00
Poteli Casglu	897.25
Raffl Fawr Eisteddfod yr Urdd	175.00
Cystadleuaeth Golf	675.00
Taith Gerdded Goffa Llew Gwent	70.00
Elw Taith Patagonia	736.84

Llai'r Cyfran o'r uchod i'w ddyrannu i ardaloedd eraill

1,425.22

Cyfanswm Ardal Bethesda, Gerlan, Rachub a Llanllechid

19,552.73

Taith o amgylch mynwentydd Dyffryn Ogwen

gan Andre Lomozik
Rhan 1

Yn ystod 2011 gofynnwyd i mi roi sgwrs i Gymdeithas y Chwirydd Eglwys Unedig Jerusalem yn Ionawr 2012. Bùm am rai misoedd yn pendroni beth y gallwn sôn amdano wrthynt, ac yn y diwedd penderfynais ofyn iddynt ddod am dro gyda mi o amgylch mynwentydd Dyffryn Ogwen, gyda'r bwriad o roi ychydig o hanes rhai cnwog ac nid mor cnwog oedd wedi cu claddu ynddynt.

Roedd y daith yn cychwyn yn Eglwys Bethlehem Talybont, a bedd Edward Stephen (Tanymarian) 1822-1885.



Eglwys Bethlehem



Bedd Edward Stephen

Ganwyd Edward Stephen mewn tŷ o'r enw Rhydysarn yn y rhan uchaf o ddyffryn Maentwrog, Sir Feirionnydd yn 1822. Cafodd Edward a'i frawd William eu prentisio fel dilledydd gan ddyn o'r enw Joseph Jones. Yn ddeunaw oed dechreuodd Edward bregethu yng nghapel Saron Llan Ffestiniog gyda'r Annibynwyr. Aeth i goleg yr Annibynwyr yn y flwyddyn 1843, ac yno dechreuodd ddysgu cerddoriaeth a chyfansoddi o ddifri.

Urddwyd ef yn weinidog yn 1847 ac aeth yn weinidog ar eglwys Annibynol Horeb Dwygyfylchi, Penmaenmawr. Bu yno am 10 mlynedd ac yn Nwygyfylchi y cyfansoddodd yr oratorio 'Ystorm Tiberias' a cheir y dyddiadau canlynol wrth y llawysgrif, "Dechreuwyd Ionawr 28, 1851, gorffennwyd Mai 28, 1852".



Yn 1856 derbyniodd alwad i fod yn weinidog ar eglwys Bethlehem Talybont a Charmel Llanllechid. Yn ystod yr amser yma gwnaed ef yn olygydd 'Cerddor y Cysegr'. Cyhoeddodd "Llyfr Tonau ac Emynau" gyda'r Parch. J. D. Jones, ac yna yn 1879 atodiad ganddo ef ei hyn i'r Llyfr Tonau ac Emynau. Bu'n olygydd Greal y Corau o Ebrill 1862 hyd y rhifyn olaf ym Mai 1863. Gwasanaethodd fel beirniad yn yr Eisteddfod a bu galw mawr arno i arwain cymanfaoedd canu.

Y gwasanaeth cyhoeddus olaf a gyflawnodd oedd beirmiadu ac arwain mewn cyfarfod cystadleuol a gynhelid yng nghapel Jerusalem Bethesda ym Mawrth 1885.

I'w barhau....

Y BWTHYN TE
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTAL A
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIDDYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbl!)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a lluo ar lunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

Côr Meibion Dinas Bangor

Ar nos Fercher 13 Mehefin yn ystod yr ymarfer wythnosol cyflwynwyd anrheg i Mr Cledwyn Jones, Llywydd y Côr, i ddiolch iddo am ei ffyddlondeb fel Llywydd am bron i chwarter canrif. Yn ei araith ar ddechrau'r cyfarfod dywedodd y Cadeirydd, Dafydd Ellis, fod y Côr wedi bod yn hynod ffodus o gael Cledwyn fel Llywydd oherwydd iddo ddangos cymaint o ddiddordeb yng ngweithgareddau'r Côr. Ar draws y blynyddoedd ychydig iawn o wythnosau sydd wedi mynd heibio heb iddo fynychu ymarfer i wrando ar y Côr yn canu. Dywedodd Dafydd, "Yn aml iawn ar ôl i Lywydd gael ei benodi go brin y gwelir o neu hi eto ond mae Cledwyn wedi bod yn Llywydd go iawn gan ymddiddori yn holl fywyd y Côr." Yr oedd Mr Jones wedi dweud ei fod am roi'r gorau i fod yn Llywydd eleni ond nid oedd y Côr am dderbyn hynny ac fe'i gwnaed yn Llywydd am oes. Cyflwynwyd rhodd o gloc iddo wedi cael ei wneud o lechen Dyffryn Nantlle - pwrpasol iawn gan ei fod yn un o hogia' Talysarn - gan James Griffiths, Arweinydd y Côr a chyn ddisgybl iddo yn Ysgol Ffariars yn dyddio yn ôl i 1953! Daeth nifer dda o'r Côr i'r cyfarfod hwn sy'n arwydd o'r parch mawr sydd gan yr aelodau tuag at ein Llywydd.

Ar nos Sul 24 Mehefin canodd y Côr mewn cyngerdd yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandudno. Yn ystod Gorffennaf, Awst a Medi bydd gan y Côr nifer fawr o gyngherddau yn enwedig yn Llandudno a Betws y Coed.



James Griffiths yn cyflwyno'r rhodd i Cledwyn Jones.

Partneriaeth Ogwen

Diolch o galon i'r rhai ohonoch a gwblhaodd Holiadur Partneriaeth Ogwen yn ddiweddar. Roedd sylwadau diddorol wedi cael eu cynnig a barn glir wedi ei hamlygu am eich gofynion chi fel trigolion yr ardal. Enillydd Iwcus £50 oedd Nicola Hilton, Pen y Ffridd, Tregarth. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Harry Cropper, Gwilym Morris a'r 'Penrhyn Quarry' - Rhan 1.

MAE nifer o dimau pêl-droed wedi bod yn Nyffryn Ogwen dros y blynyddoedd - ym Mynydd Llandygái, Tregarth, Llandygái, Llanllechid ac, wrth gwrs, ym Methesda'i hun. Ysgrifennais am y *Bethesda Comrades* yn Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad ond tybed nad yw'r maes yn gyffredinol yn ddigon toreithiog a phwysig, hyd at ein dyddiau ni heddiw, i rywun fynd ati i groniclo hanes pêl-droed yn Nyffryn Ogwen dros gyfnod o ganrif a rhagor! Pwy o ddarllenwyr Llais Ogwan sydd â'r amser, yr amynedd, a'r diddordeb, i fynd ati i ymchwilio go ddifri, pe na bai ond i gywain gwybodaeth a ffeithiau, stracon, atgofion ac adroddiadau-papur-newydd, ac ati, fel bod y deunydd o leiaf wedi ei hel at ei gilydd o wahanol ffynonellau yn barod i gael ei gofnodi a'i gyhoeddi?

Ond, am y tro, gadewch i ni fynd yn ôl dros 60 o flynyddoedd i'r 1940au, pan oedd tîm pêl-droed arbennig o dda yn chwarae ar gae Parc Meurig, Bethesda. Bydd llawer yn cofio neu o leiaf wedi clywed sôn am dîm enwog y *Penrhyn Quarry*. Hogia lleol oedd bob un o'r chwaraewyr bron, a'r cefnogwyr a dyrrai i'r cae ar b'nawniau Sadwrn yn eu 'nabod i gyd yn dda - a hynny wrth eu henwau cyntaf bron yn ddicithriad. Fel yr awgryma'i cnw, tîm wedi codi o blith y chwarelwyr lleol oedd y

Penrhyn Quarry ac mae'n rhaid cofio bod 'na dimau pêl-droed ar rai o'r ponciau yn y chwarel yn cystadlu yn erbyn ei gilydd bob blwyddyn yn y 'Competition' fel y'i gelwid (a chyflwynwyd medalau i aelodau'r tîm buddugol). Clywais sôn hefyd fod gweithio yn y Chwarel yn un o amodau cael bod yn aelod o dîm y Penrhyn Quarry, er na wn i sicrwydd a oedd hynny'n wir ai peidio.

Er mor gyfarwydd oedd enwau'r hogia i gyd, ac er cystal chwaraewyr oedden nhw, y ddau enw 'mawr' oedd Harry Cropper a Gwilym Morris, yr olaf hwn yn un o driawd o frodyr - Bobi a Huw oedd y ddau arall - a fu'n chwarae i *Penrhyn Quarry*. Dydi Huw ddim yn y llun isod o dîm y *Penrhyn Quarry* tua diwedd y '40au ond Bobi ydi'r ail o'r chwith yn y rhes flaen ac, wrth ei ymyl, mae'i frawd, Gwilym. Roedd Gwilym yn ymosodwr o'r radd flaenaf, yn gallu curo'i ddyn mor hawdd, â'r bêl fel pe bai ynghlwm ar linyr wrth ei droed. Ei gymar yn y rheng flaen oedd Harry Cropper (sydd wrth ei ymyl yn y llun) a'r ddau'n cyd-chwarae, yn cydsymud ac yn deall ei gilydd i drwch blewyn. Does rhyfedd i rai o dimau mawr Lloegr fod â'u golygon ar y ddau ddewin hyn a cheisio'u hudo i chwarae dros y ffin.



Rhes gefn (o'r chwith): Gwilym Rees Griffiths, Benny Williams, Gwilym Davies, Stanley Taylor; Kitchener Roberts

Rhes flaen: ? ; Bobi Morris; Gwilym Morris; Harry Cropper; Ronnie Jones; William Griffith.

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr

Ysglodion pren i'r ardd

Ffensio a thorri coed

Asiant system gwresogi trwy

losgi coed

01248 605207

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Ymweliad Blwyddyn 6



Bu'r 65 disgybl sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi yma am ddiwrnod ar Fehefin 20fed yn cael cyfle i flasgu gwersi Cymraeg, Saesneg, Celf ac Addysg Gorfforol a chael chyfnod yn eu dosbarthiadau cofrestru newydd. Edrychwn ymlaen i'w croesawu!

Pencampwyr Mathemateg



Llongyfarchiadau i ddau ddisgybl o flwyddyn 8, Rhiannon Llwyd a Ben Jones, am ennill gwobrau mewn cystadleuaeth Fathemateg a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol. Roedd 600 o ddisgyblion drwy Gymru wedi cystadlu, 80 wedi cyrraedd safon dda, a 12 wedi rhagori. Cafodd y 12 eu cyflwyno gyda'r gwobrau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd gan lywydd y dydd, Malcolm Allen. Ysgol Dyffryn Ogwen oedd yr unig ysgol drwy Gymru lle cafodd dau ddisgybl eu gwobrwyo.

Noson Cabaret

Llongyfarchiadau i ddisgyblion y Chweched Dosbarth - Alice, Mari, Sioned, Sian a Gwion - am arwain noson arbennig o adloniant yn Tŷ Golchi ar nos Sadwrn, Mehefin 23. Roedd amrywiaeth o unawdau, deuawdau a pherfformiadau ensemble o ganeuon traddodiadol, clasurol, jazz, gospel a rhai o fyd y sioe gerdd. Da iawn chi!!! Fe wnaed casgliad o £90 tuag at Ymchwil Canser Cymru hefyd. Diolch i bawb a gefnogodd. Edrychwn ymlaen at noson arall yng nghwmni'r bobl ifanc dalentog yma yn y dyfodol.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Sian Mererid Jones am berfformiad o safon uchel yn yr unawd chwyth yn Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i'r côr iau am gyflwyno rhaglen safonol ar lwyfan perfformio Cyngor Celfyddydau ar y dydd Iau. Er gwacthaf y tywydd garw, roedd cynulleidfda dda wedi mwynhau eu cyflwyniad bywiog.

Gweithgaredd Pontio Gwyddoniaeth – Blwyddyn 6



Daeth disgyblion o flwyddyn 6 ysgolion cynradd ein dalgylch i Adran Wyddoniaeth Ysgol Dyffryn Ogwen wythnos diwethaf i fwynhau bore o weithgareddau gwyddonol.

Roedd yr adran wedi trefnu gweithgareddau 'CSI Bethesda'! Roedd rhywun wedi 'menthyg' y taflunydd o'r labordy ac roedd y person wedi gadael tystiolaeth ar safle'r drosedd. Rôl y disgyblion oedd edrych ar y dystiolaeth a'i ddefnyddio i geisio penderfynu pa un o'r pedwar a ddrwgdybiwyd oedd y troseddwr. Edrychodd y disgyblion ar samplau o ffibr, cemegau oddi ar y ffibr, olion bysedd a thraed, pridd oddi ar esgid a nodyn a oedd wedi cael ei adael gan y troseddwr.

Ar ôl mynd yn ôl i'w hysgolion, roedd y disgyblion yn ysgrifennu adroddiad ar eu darganfyddiadau ac rydym yn edrych ymlaen at ddarllen y rhain pan fydd y disgyblion yn cychwyn gyda ni ym mis Medi. Hoffai'r adran wyddoniaeth ddiolch i athrawon blwyddyn 6 am eu cefnogaeth yn ystod y gweithgaredd.

Taith Llundain



Fel rhan o gwrs y Fagloriaeth Gymreig, aeth criw ohonom o'r chweched dosbarth draw i Lundain yn ddiweddar i ymweld â mannau enwog y briffddinas. Dros gyfnod o ddau ddiwrnod, cawsom gyfle i gael blas iawn ar Lundain, gan weld 'Changing of the Guards', Palas Buckingham, Big Ben, London Eye, Stryd Downing a Sgwâr Trafalgar.

Roeddem yn hynod o ffodus o gael ein tywys o amgylch San Steffan a chael sgwrs arbennig gan Hywel Williams A.S. Roedd yn ddifyr iawn cael gwrandao arno'n trafod ei brofiadau a'i waith yn Nhŷ'r Cyffredin a chawsom wrando ar ran o ddadl yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Wedi diwrnod o grwydro, ar droed ac ar drenau tanddaearol, cawsom ymlacio yn y theatr yn gwyllo'r sioe gerdd 'Wicked' cyn noson dda o gwsg yng ngwesty'r Marriott. Roedd China Town a Sgwâr Leicester yn ardaloedd bywiog a thrawiadol, a'r Mosg a'r Natural History Museum yn ddiddorol dros ben.

Diolch i Mr Dylan Davies a Mrs Margaret Williams-Roberts am drefnu taith gofiadwy, ac am adael rhywfaint o amser i ni gael siopa!

Ysgol Llanllechid

Dirprwy Bennaeth

Llongyfarchiadau gwresog i Mr Huw Edward Jones ar gael ei benodi'n Ddirprwy Bennaeth Ysgol Llanllechid.

Ffarwelio â Mrs Wendy Jones a Mrs Shirley Hartleb

Gan fod Mrs Wendy Jones sydd ar y tîm glanhau ac yn goruchwyllo amser cinio yn ein gadael yr haf hwn, hoffem gymryd y cyfle i ddiolch iddi am flynyddoedd o wasanaeth arbennig i Ysgol Llanllechid. Bydd yn chwith ar eich hol Anti Wendy!

Diolch arbennig hefyd i Mrs Shirley Hartleb am ei gwaith caled yn y gegin. Bu Mrs Hartleb yn cyflenwi yn ystod absenoldeb Mrs MacDonald. Diolch i chi am bob cymwynas Mrs Hartleb.

Swydd a Phriodas

Pob dymuniad da i Miss Angharad Tomos yn ei swydd newydd yn Ysgol Babanod Llanfairfechan. Bydd yn cychwyn ar y swydd ym Mis Medi, ond erbyn hynny Mrs. Angharad Roberts fydd hi! Dymuniadau gorau am briodas hapus iawn iddi hi a Gareth yn ystod yr Haf! Bywyd gwyllt yn y Dosbarth Derbyn

Yn ystod yr hanner tymor diwethaf, mac dosbarth Mrs Wilson wedi bod yn dysgu am wahanol greaduriaid bach sy'n byw yn yr ardd. Yn y dosbarth mac'r wyau bach wedi deor ac mac'r lindys yn tyfu ac yn dechrau troi 'n chwiler, a fydd, gobeithio'n troi'n Bili Pala cyn diwedd y tymor! Bu'r plant yn dilyn olion llysnafedd (gwlan arbennig) o amgylch yr ysgol a chreu map er mwyn dod o hyd i'r falwen ddrwg, yn ogystal a darganfod pryfed cop, gwenyn y Dewin Dwl a thyllu am bry genwair!

Russell Jones a'r iarods!



Roedd swm clwecian a chlochdar mawr yn dod o gyfeiriad neuadd yr ysgol yn ddiweddar, pan ddaeth Russell Jones ['Byw yn yr Ardd ar S4C] a'i gyfeillion pluog i'r ysgol i'n gweld. Aeth Russell i weld gardd plant y Dosbarth Derbyn, ac roedd pawb wrth eu boddau. Gwirionodd y plant [a'r staff!] ar yr ieir, y ceiliog, y cywion heb sôn am Sid y clagwydd, a oedd yn crwydro, baeddu a throi dŵr o amgylch y lle

Llanberis

Aeth dosbarthiadau Blynyddoedd 1 a 2 ar ymweliad â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Roedd pawb wedi gwirioni cael gweld taid Osian Davies yn rhoi arddangosfa wych o sut mae'r chwarelwyr yn hollti a naddu llechi. Cawsom weld rhesiad o dai 'ers talwm', yn cynnwys tŷ Bethesda, gyda'r cerdyn yn y ffenest yn datgan nad oes 'Bradwr yn y tŷ hwn'! Ar ôl cinio, cawsom fynd ar y trên bach i weld y llyn Padarn.

Eisteddfod yr Urdd: Llongyfarchiadau!

Un o uchafbwyntiau'r mis, yn sicr oedd y rhan y bu disgyblion Ysgol Llanllechid yn ei chwarae yn Eisteddfod yr Urdd, Eryri. Bu rhai o'r plant yn cymryd rhan yn y pasiant [tair noson], y cyngerdd agoriadol, y Ddawns Flodau, cyflwyniad Robot Jôs Gwich [dau berfformiad], y Côr a'r Gân Actol! Canodd y Côr yn wych yn y rhagbrawf, a llwyddodd y Gan Actol i gael y drydedd wobwr ar y llwyfan ar Nos Lun yr Eisteddfod. Camp anhygoel oedd dod yn drydydd o gofio bod 13 o ysgolion yn cystadlu! Cafwyd canmoliaeth arbennig gan feirniaid swyddogol (ac ansyddogol - ar y teledu) yr Eisteddfod - clod mawr i Mr Huw Edward Jones a gweddill y staff a fu'n cyd weithio i greu'r cyfan, heb anghofio am y plant eu hunain wrth gwrs!

Braf iawn hefyd oedd gweld gwaith crefft buddugol Cerys Elen, Ithel ac Idris yn y babell Gelf a Chrefft ar y maes.



Rhyd Ddu

Cafodd Blwyddyn 6 ddau ddiwrnod llawn hwyl gan dreulio'r nos yn nhy'r Ysgol T.H.Parry Williams yn ddiweddar. Roedd lluo o weithgareddau wedi eu trefnu ar eu cyfer, gan gynnwys taith gerdded i ben yr Wyddfa a llwyddodd pob un i gyrraedd y copa! Diolch eto i Cemlyn a Morfudd am eu trefniadau arbennig a diolch i Ms Hughes a Mr Stephen Jones a Ms Manon am eu gwaith yn goruchwyllo'r disgyblion.

Mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen

Hwrê! Cafwyd diwrnod sych a braf i gynnal mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen! Daeth nifer helaeth o rieni a chyfeillion draw i weld y plant yn cystadlu mewn pob math o rasmus. Roedd pawb yn hapus, a phawb yn cael sticer, - gan gynnwys y rhai oedd yn fuddugol yn rasmus y rhieni! Mabolgampau Cylch Dyffryn Ogwen - Y Gwledydd Diolch yn fawr iawn i Mr Alun Llwyd a'i staff a disgyblion hŷn Ysgol Dyffryn Ogwen am drefnu 'Mabolgampau'r Gwledydd' ar gaeau Treborth. Ysgolion y dyffryn oedd yn cystadlu, a cafwyd diwrnod i'w gofio. Roedd y trefniadau'n wych, a phawb yn cael cymryd rhan. Gwych! Diolch yn fawr.

Mabolgampau Bangor/Ogwen yr Urdd

Bu cystadlu brwdfrydig ar drac athletau Treborth yn ddiweddar yn ystod cystadleuaeth Mabolgampau Bangor/Ogwen yr Urdd. Roedd Beca Nia, Stuart Roberts a Bess Tranter yn llwyddiannus iawn yn eu cystadlaethau hwy. Da iawn chi.

Ymweliad Bl 6 ag Ysgol Dyffryn Ogwen

Treuliodd disgyblion Bl 6 ddiwrnod cyfan yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar, er mwyn cael blas ar rai o'r gwersi a'r gweithgareddau. Cawsant gyfarfod llawer o'r athrawon, yn ogystal a'u cyd-ddisgyblion, a gellir dweud fod pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr. Cafodd Blwyddyn 6 fore ychwanegol yn Ysgol Dyffryn Ogwen hefyd yn cael gweithdy Gwyddoniaeth fflorensig ac roedd hwn hefyd yn brofiad gwych!

Pawb yn Profi Pizza!

Cafodd y Dosbarth Derbyn wledd yn ddiweddar, pan aethant am y p'nawn i weld tad Llion Parry mewn siop pizza! Cafodd y plant weld sut oedd y pizzas yn cael eu gwneud, yn ogystal a helpu i'w coginio! Yn ogystal, cawsant flasu'r cyfan hefyd, a bwyta llond eu boliau! Diolch yn fawr iawn i Mr Parry am drefnu'r cyfan!

Diwrnod Honduras

Daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo dillad o wahanol wledydd, er mwyn codi arian at y Project Trust. Gwerthwyd llawer o gacennau yn ystod y dydd hefyd, a daeth swyddog o fanc Barclays i'r ysgol yn addo cyfrannu punt am bob punt a gasglwyd. Llwyddwyd, felly i gyfrannu £600 tuag at 'Project Trust'. Pob dymuniad da i Mali Parry Owen a fydd yn treulio'r flwyddyn nesaf yn Honduras yn gweithio.

Eilir Jones

Daeth yr actor adnabyddus Eilir Jones [Ffermwr Ffowc] a oedd yn yr ysgol hefo Mrs Davies Jones, draw at Flwyddyn 5 i gynnal gweithdy 'ysgrifennu creadigol'. Llwyddwyd i ysgrifennu campweithiau yn ei gwmmi a chafwyd milocdd o hwyl!

Ras Hwyaid

Cafwyd 'Ras Hwyaid' lwyddiannus iawn eto eleni, yn y Clwb Criced. Bu 'r Gymdeithas Rieny yn brysur unwaith eto yn trefnu stondinau, raffl, barbeci, castell neidio yn ogystal a'r ras ei hun. Gwnaethpwyd dros £300 o elw. Diolch i'r criw gweithgar am drefnu mor dda - Iona Robertson, Lowri Roberts, heb anghofio Amber â'r raffl!

Trip Meithrin

Cafodd plant y Dosbarth Meithrin daith fendigedig i Fferm y Foel. Wrth lwc, cawsant dywydd sych, ac roedd y plant wedi gwirioni cael gweld a bwydo'r holl anifeiliaid!

Ysgol Llanllechid (Parhad)

Trip Blynyddoedd 3 a 4

Bu dosbarthiadau Blynyddoedd 3 a 4 yn ymweld â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis yn ddiweddar. Roedd pawb yn glustiau i gyd yn gwranddo ar cglurhad o sut oedd yr olwyn ddŵr yn gweithio. Braf hefyd oedd gweld yr hen dai o wahanol gyfnodau gan gynnwys tŷ bychan iawn o Fethesda o gyfnod Streic y Penrhyn.

Rygbi

Bu timau rygbi'r ysgol yn llwyddiannus iawn mewn twrnament rhwng ysgolion lleol ym Mhllas Ffranccon. Cafodd y ddau dim o Flynyddoedd 3 a 4 y wobwr gyntaf a'r ail! Llongyfarchiadau i chi hogiau!

Ysgol Tregarth

Mabolgampau'r Urdd.

Bore dydd Llun, Mehefin 18fed aeth criw o aelodau'r Urdd i gystadlu ym mabolgampau Cylich Bangor Ogwen yn Nhreforth. Gwnaeth pawb ei orau glas a chafwyd bore hwyliog a sych! Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

Llongyfarchiadau arbennig i Eban Hargreaves o flwyddyn 4 ar ei lwyddiant diweddar mewn cystadlueth slalom. Daeth ef yn fuddugol yn yr adran ieuentid. Mae'n o'n prysur ddatblygu yn gaiaciwr arbennig o dan hyfforddiant ei dad. Pob lwc iddo yn y dyfodol.

Gwibdaith i Gaerdydd

Caerdydd oedd cyrchfan Blwyddyn 6 ddiwedd mis Mehefin a nifer o'r plant yn ymweld â'n prifddinas am y tro cyntaf erioed. Cawsom drip diwrnod prysur iawn - uchafbwyntiau'r diwrnod oedd cael ymweld â'r Senedd a chyfarfod Alun Ffired Jones ein Aelod Cynulliad lleol, cael tynnu'n lluniau gydag un o gwpanau tîm rygbi Cymru yn Stadiwm y Mileniwm, ac yn yr Amgueddfa Genedlaethol gwelsom ddarn o'r lleud! Diwrnod blinedig a bythgofiadwy!

Mabolgampau Ysgolion Dyffryn Ogwen.

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn cystadlu ym mabolgampau ysgolion Dyffryn Ogwen ar 25 Mehefin ar gaeau chwaraeon Treborth. Roedd y diwrnod wedi ei selio ar y gemau Olympaidd a chafodd Kara gyfle i gario'r fflam o amgylch y trac a cafodd yr holl ddisgyblion gyfle i orymdeithio o flaen y gynulleidfa. Rhannwyd y disgyblion i dri tîm sef Awstralia, Botswana a Trinidad a Thobago a bu cystadlu brwd rhwng y gwledydd. Roedd cyfle i daflu coets, rhedeg, neidio, rhedeg traws gwlad a tynnu rhaff. Da iawn pawb am gymryd rhan!

Y Gadeirlan

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r gadeirlan yn ddiweddar i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn ymwneud ar themâu Pererindod. Roedd cyfle i ddysgu am fynach a hefyd gwisgo gwisg mynach, cyfle i ddysgu caneuon hwylus, a chyfle i feddwl am symud ysgol a gweddio. Cynhaliwyd gwasanaeth i'r holl ddisgyblion, staff a rhieni yn ystod y prynhawn a cafodd y disgyblion anrheg arbennig o groes bren i fynd adref gyda nhw.

Sboncen

Cafodd disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 hyfforddiant sboncen gan staff Canolfan Plas Ffranccon. Roedd pawb wedi mwynhau y profiad, a oedd yn hollol newydd i rai ohonynt. Gobeithio y bydd amryw yn awyddus i ymuno â'r clwb fydd yn dechrau cyn hir.

Swydd Newydd

Dymuniadau gorau i Mrs Gwen Owen fydd yn cychwyn ar ei swydd newydd yn Ysgol Babanod Llanfairfechan ym mis Medi. Mae Mrs Owen wedi bod ar staff Ysgol Tregarth ers 1999 ac fe fyddwn yn gweld ei cholli'n fawr. Pob lwc yn y swydd newydd.

Gelli Gyffwrdd

Treuliodd y plant ddiwrnod hapus iawn yng Ngelli Gyffwrdd ar un o'r dyddiau prin di-law y tymor hwn.

Ffair Haf

Oherwydd y tywydd ni chynhaliwyd y Ffair haf ond fe fyddwn yn ail-drefnu erbyn mis Medi.

Ysgol Bodfeurig

Gemau Olympaidd



Anghofiwch am Gemau Olympaidd Llundain, y lle i fod ym mis Mehefin oedd Gemau Olympaidd Dyffryn Ogwen! Aeth disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 i gaeau Treborth i gynrychioli'r ysgol yn y Gemau. Roedd plant o ysgolion cynradd y dalgylch yn ogystal a disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn cystadlu. Cafwyd diwrnod llawn hwyl a sbort gyda pawb yn cynrychioli gwledydd gwahanol. Diolch i Ysgol Dyffryn Ogwen am drefnu'r diwrnod

Tag Rygbi




Wedi i dim rygbi blwyddyn 5 a 6 gynrychioli'r ysgol yn yr wyl Tag Rygbi yn ddiweddar fe ddaeth cyfle tîm blwyddyn 3 a 4 wythnos yn ddiweddarach. Dyna hwyl a gafodd y tîm yn cystadlu yn erbyn plant o ysgolion eraill o'r dalgylch ac roedd pawb wrth eu bodd ar ddiwedd y diwrnod pan ddaethant yn ail!

Ymweliad â Chaerdydd

Yn ystod y mis daeth cyfle i flwyddyn 6 ymweld â Chaerdydd am y diwrnod. Dyma Ishka yn adrodd ei hanes ar y daith:

Codais yn fuan i fynd gyda Sasha i'r orsaf trên i fynd i Gaerdydd. Roedd y trip ar y trên yn hir iawn ac roeddwn i bron a cysgu! Pan gyrhaeddodd Caerdydd aethom i weld Plass Roald Dahl ac roedd llawer o luniau yna. Wedyn aethom i weld y senedd ble cawsom sgwrs gyda Mr Alun Ffired Jones cyn mynd i Ganolfan y Mileniwm ac i weld y Norwegian Church.



Ar ôl cinio aethom am dro i Queens Street, roedd lot o bobol a siopiau yna. Wedyn aethom i'r amgueddfa roedd bob dim yna yn ddiddorol iawn, roedd yna asgwrn dinosoriaid yno. Wedyn aethom i Stadiwm y Mileniwm, aethom i weld lle roedd yr chwaraewyr yn cynhesu i fyny. Wedyn aethom i weld yr seddi a lle roedd y frenhines a pobol pwysig yn eistedd. Ar ôl cael swper roedd yn amser cychwyn am adref. Dyna ddiwrnod hir a diddorol!

Golygydd mis Medi fydd Siân Esmor Rees,
Gwenlais, 8 Bron Arfon, Llanllechid, LL57 3LW.01248 600427.
sian_esmor@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher,
5 Medi, os gwelwch yn dda.

Ysgol Abercaseg

Trefi Taclus

Daeth Johnathan, Swyddog Trefi Taclus draw i'r ysgol i drafod problem ysbwriel ym Methesda a'r broblem enbyd arall, sef baw cŵn ar y palmentydd a'r llwybrau!! Mae'r plant wedi cael llond bôl o'r holl fudreddi, ac wedi bod yn brysur yn dylunio posteri a fydd yn atgoffa pobl i lanhau ar ôl eu cŵn. Bydd y posteri i'w gweld o amgylch y pentref mewn ychydig, gyda phawb yn croesi bysedd y bydd pawb sydd â chŵn yn talu sylw i'r neges bwysig!!!

Bâd Achub



Yn dilyn ymweliad dosbarthiadau Ffrydlas, Ogwen a Tryfan i Fiwmares, penderfynwyd casglu arian i'r Bad Achub yno. Cafodd bawb dalu am y fraint o gael gwisgo dillad ar y thema 'Glan y Mor' ac roedd sawl môr leidr a môr forynion o gwmpas y lle! Llwyddwyd i gasglu £90 tuag at yr achos.

Ffair Haf

Cynhaliwyd Ffair Haf yr ysgol yn y Clwb Criced ar nos Iau Mehefin 28ain. Roedd pob dosbarth wedi bod yn brysur iawn yn cynhyrchu eitemau i'w gwerthu ac roedd amryw o stondinau eraill i wario'ch arian. Diolch i bawb a ddaeth ac a helpodd mewn unrhyw ffordd a gwneud y noson yn un lwyddiannus.

Clwb cinio a phrynhawn Ysgol Abercaseg.

Llongyfarchiadau i Mrs Marion Mayhead a Miss Catherine Davies ar gael eu penodi yn Arweinydd a Chymhorthydd y clwb cinio (11am-1pm) a chlwb prynhawn (1-3pm) Ysgol Abercaseg. Bydd modd i blant yr ysgol ddefnyddio'r clwb ynghyd ag unrhyw blentyn arall sy'n 3 oed ond sydd heb gychwyn ysgol (h.y. plant sy'n mynychu yr Ysgolion Meithrin yn y bore).

Cystadleuaeth Garddio



Mae pawb yn yr ysgol yn croesi bysedd y bydd ein gardd yn derbyn gwobr mewn cystadleuaeth 'Gerddi Ysgolion'. Gyda'r holl dywydd gwlyb diweddar mae'r cynnyrch yn tyfu ar gyflymder cyflym iawn!!! Diolch unwaith eto i staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r rhieni am ein helpu gyda'r ardd.(llun 2)

Ffarwelio

Bydd Mrs Sioned Owen, athrawes dosbarth Tryfan, yn cin gadael ar ddiwedd y tymor. Rydym i gyd am ddiolch iddi am ei gwaith yn ystod ei blwyddyn yn yr ysgol ac yn dymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Dymuniadau da

Pob hwyl i blant Blwyddyn 2 yn Ysgol Pen y bryn. Mae'r plant i gyd wedi ymweld a'r ysgol sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ac yn edrych ymlaen at mis Medi.

Tymor Newydd

Bydd y tymor newydd yn cychwyn ar ddydd Mawrth, Medi 4ydd i'r disgyblion.

Clwb Cinio a Phrynhawn Ysgol Abercaseg

Oriau: 11.00 am-1.00 pm (clwb cinio)
1.00-3.00pm (clwb prynhawn)

Arweinydd: Mrs Marion Mayhead BA, NVQ Lefel 3

Gall unrhyw blentyn sy'n 3 oed fynychu y clybiau sy'n gofrestredig gyda AGGCC(CSSIW)

Am fanylion pellach ffoniwch
07818000415



Yn dilyn yr Arolwg rhagorol yn ddiweddar ymwelwyd ag Ysgol Abercaseg gan Alun Ffred, AC Arfon, a'r Cyng Selwyn Griffith, Cadeirydd Cyngor Gwynedd, ynghyd a'r Cynghorydd Ann Williams, aelod o Gorff Llywodraethol yr ysgol. Llongyfarchwyd yr ysgol yn fawr am eu hadroddiad rhagorol, a diolchwyd i'r holl staff a'r disgyblion am eu gwaith caled. Ysgol Abercaseg yw'r ysgol gyntaf yng Ngwynedd i dderbyn gradd Rhagorol ym mhob maes mewn Arolwg Yn y llun gwelir yr ymwelwyr gyda'r Pennaeth, Sioned Hywel Thomas, a rhai o'r disgyblion.

Tony Davies
Plymio a Gwresogi
Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
Rhif Corgi 190913

☎ Symudol 078184 10640
☎ 01248 601 466

Ysgol Rhiwlas

Dathlu'r Eisteddfod a'r Jiwbilî

Bu bwrwm yn y pentref ar ddiwrnod dathlu'r Eisteddfod a'r Jiwbilî. Daeth dros hanner cant o bentrefwyr i ymuno yn y wledd. Diolch i bawb am eu cyfraniad ac am eu cwmni ar brynhawn bendigedig.

Perfformio yn yr Eisteddfod

Llongyfarchiadau mawr i'r Adran Iau am eu perfformiad gwych yn yr Eisteddfod yng Nglynllifon. Bu canmoliaeth mawr i'r ddawns gan nifer o bobl ar faes yr Eisteddfod yn ystod y dydd.

Mabolgampau Ysgolion Bach

Ar ôl ymarfer am sawl wythnos bu'r plant yn llwyddiannus iawn yn y Mabolgampau. Braf oedd cael gweld yr holl fedalau aur yn yr ysgol. Da iawn chi blant.

Plant Blwyddyn 6

Ymwelodd Iestyn ag Ysgol Brynrefail, Lucy a Nia ag Ysgol Dyffryn Ogwen a Lola ag Ysgol Friars. Daethant yn ôl yn llawn stracon diddorol. Yn sicr bydd ein blwyddyn 6 yn hapus yn eu hysgolion newydd.

Nofio

Erbyn hyn mae plant y dosbarth Derbyn wedi ymuno yn y gwersi nofio ac yn gwneud yn wych. Daliwch ati!

Garddwest

Llwyddiant eto i'r plant yng nghystadlu Celf Garddwest. Bu pawb yn brysur yn yr ysgol yn paratoi ac yn cynhyrchu gwaith o'r safon uchaf. Llongyfarchiadau mawr i Keira, Osian a Iori o'r adran Babanod a Ciara a Jenny o'r adran Iau.

Mabolgampau



Wel, mi ddewiswyd diwrnod da i'r mabolgampau – haul yn disgleirio ar y diwrnod. Trefnwyd seremoni agoriadol gyda'r capteiniaid yn rhedeg o amgylch y cae gyda ffagl ac wedyn dawnsiodd y plant i gyd i'r gynulleidfa. Bu cystadlu brwd trwy'r prynhawn – yn enwedig ras y rhieni!!

Pontio Gwyddoniaeth

Cyfle da i blant blwyddyn 6 gael ymweld ag Ysgol Dyffryn Ogwen ac i wneud rhagor o ffrindiau newydd cyn trosglwyddo. Diolch iddynt am y croeso ac am sesiwn wyddoniaeth wych.

Profiad Gwaith

Croesawyd Sophie Marsh a Cerin Williams atom ar wythnos o brofiad gwaith. Diolch i'r ddwy am eu brwdfrydedd a'u gwaith caled tra yn yr ysgol.

Diwrnod Arbed Dŵr

Galwodd Claire Jones draw i siarad gyda'r plant. Cynhaliodd weithdai gyda phlant yr adran Iau ac ar ddiwedd y sesiwn roeddynt wedi dysgu llawer. Braf ydy clywed y plant yn holi a rhesymu mor synhwyrol.

Radio Cymru / Pili Pala

Mae'r adran Fabanod wedi prynu cit Pili Pala. Roedd rhaid iddynt fwydo a gofalu am 30 Siani Flewog! Pan glywodd Radio Cymru am hyn cawsant alwad ffôn ganddynt. Cafodd Iestyn Price a Ciara Dodd wedyn gyfle i holi'r milfeddyg yn fyw ar y radio. Roeddynt mor naturiol wrth holi'r milfeddyg. Dyma rhai o'u cwestiynau. Pam nad yw rhai cocwnau yn hongian? Faint o'r 30 Siani Flewog fysa'n goroesi? Faint fysa'n goroesi'n naturiol? Am faint mae'r pili pala yn byw? Beth yw'r peryglon ar ôl iddynt gael eu gollwng?

Ffair Haf

Diolch i Gymdeithas Ffrindiau'r Ysgol am drefnu Ffair Haf. Diolch hefyd i bawb fu mor barod i'n helpu. Cawsom noson dda gydag awyrgylch fendigedig yma. Bu llawer o blant ac oedolion yn dawnsio i gerddoriaeth band Samba tra bu eraill yn cymryd rhan mewn gemau amrywiol neu'n eistedd gyda phanad a chael sgwrs ddiwyf. Casglwyd £513.

Sw Môr

Bu plant y Babanod ar ymweliad addysgol i Sw Môr, Brynsiencyn fel rhan o waith y tymor. Ar ôl dychwelyd yn llawn hanesion cafodd plant yr adran Iau gyfle i wrando ar eu stracon ac ateb sawl cwestiwn. Da iawn chi blant – mae'n amlwg eich bod wedi dysgu llawer ar yr ymweliad.

Wythnos Genedlaethol Chwaraeon



I dathlu'r wythnos bu'r plant yn brysur iawn yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau corfforol. Bobl bach mae gennym blant ffitt rwan! Mae'r ysgol wedi cael ei dewis i fod yn aelod o rwydwaith ysgolion "Get Set" ac ymfalchiwn yn hyn.

Ysgol Llandygái

Ffair Haf

Cawsom ffair lwyddiannus eto eleni er gwaethaf tywydd siomedig. Braf oedd gweld cyn ddisgyblion yn ogystal â rhieni a chyfeillion yr ysgol yn mwynhau gwario a bwyta a sgwrsio. Roedd y plant wedi cynhyrfu gan fod Sali Mali a Sam Tân wedi ymweld â'r ffair. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Mabolgampau

Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn cystadlu a chael hwyl yn y Mabolgampau yn ddiweddar. Roedd cryn weiddi rhwng y pedwar tî sef Ogwen, Menai, Tegai a Thryfan. Tryfan oedd y tî buddugol eleni. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am y lolipops blasus a diolch i'r rhieni am gefnogi. Yn anffodus bu'n rhaid gohirio Mabolgampau yr Adran Iau oherwydd y tywydd garw.

Tripiau'r Haf

Bu plant y Cyfnod Sylfaen ar eu trip i'r Amgueddfa Lechi a thrên bach y llyn yn Llanberis.

Roedd ymddygiad y plant i'w ganmol ac roedd canu swynol i'w glywed yn dod o gerbydau'r trên wrth iddi deithio o amgylch y llyn. Diolch i bawb am eu cymorth parod unwaith eto.

Bu'r Adran Iau yn Techniquet yn Wrecsam yn ddiweddar a chawsant amser da yn dysgu ymhellach am rymoedd –hyn yn cyd-fynd â thema y tymor. Diolch i bawb fu'n cynorthwyo i oruchwylio y plant.

Eisteddfod Gadeiriol yr Ysgol

Braf oedd cael llongyfarch Ruby Allison ar ei llwyddiant yn ysgrifennu darn o ryddiaeth ac yn ennill cadair yr eisteddfod eleni. Cawsom seremoni urddasol o dan arweiniad Machraeth. Mr Morris oedd yn canu cân y cadeirio, a disgybl o Ysgol Tryfan oedd yn canu'r corn gwlad. Mrs Nerys Tegid oedd y beiriniad a disgyblion Blwyddyn 1 a 2 oedd yn dawnsio'r ddawns flodau. Diolch i bawb am eu cyfraniad i seremoni fythgofiadwy.

Ymweliad

Daeth Mr Johnson at ddisgyblion blwyddyn 1 a 2 i siarad am ei waith fel swyddog achub mynydd. Roedd y sgwrs yn hynod ddiddorol. Diolch iddo am rannu ei arbenigedd ac am ei amser.

Gallai eich hysbyseb

Chi

fod yma

Cysylltwch â
Neville Hughes 600853**WU SHU KWAN****Bocsio Cic Tsieineidd (Kung Fu)**Dosbarthiadau
yng Nghanolan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦

Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth**Tony
Two me****Peintiwr ac
Addurnwr
Trwyddedig****Gwneir unrhyw waith,
mewnol ac allanol.**Ffôn Symudol:
07796 156829
Tŷ: 01248 602039**IOAN WYN JONES****Y Dyn Handi**

am bob math o waith o gwmpas y tŷ

- *Plastro a Rendro*
- *Teilsio Waliau a Lloriau*
- *Gwaith Saer, Gosod Drysau*
- *Paentio, Papuro, Addurno*

FFONIWCHE Y DYN HANDI
01248 602762 / 07884 282912**“J.R.”****SGAFFALDWYR**Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

Llythyrau**SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â'R
GYMRAEG:
BETH YW'CH BARN?**Y llynedd fe baswyd Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 yn y Cynulliad; deddfwriaeth a
roddodd statws swyddogol i'r iaith Gymraeg
yng Nghymru, ac a greodd rôl Comisiynydd y
Gymraeg.Fe ddechreuais yn fy ngwaith fel Comisiynydd
y Gymraeg ar 2 Ebrill 2012. Rôl y
Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r
Gymraeg, a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r
Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r
Saesneg yng Nghymru.Mae'r Mesur yn gosod fframwaith cyfreithiol
er mwyn cyflwyno dyletswydd ar rai
sefydliadau i gydymffurfio â Safonau statudol
sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae Safonau yn
nodi sut y bydd disgwyl i sefydliadau drin a
defnyddio'r Gymraeg. Y bwriad yw ei gwneud
yn fwy eglur pa wasanaethau y gall pobl
ddisgwyl eu cael yn Gymraeg a bod y
gwasanaethau hynny yn gyson.Mae'r Safonau drafft cychwynnol wedi eu
llunio, ac rwy'n awyddus i glywed barn
unigolion a sefydliadau a chymdeithasau ar y
Safonau drafft – beth bynnag bo'r farn honno.Nid yw'n ofynnol o dan y Mesur i gynnal
ymgyngoriad ar Safonau drafft cyn eu
cyflwyno i sylw Gweinidogion Cymru, ond o
gofio pwysigrwydd yr hyn y mae angen ei
gyflawni o ran hybu a hwyluso defnyddio'r
Gymraeg, mae ymgyngori'n cang yn
rhywbeth rwy'n awyddus i'w wneud.Estynnir gwahoddiad i chi ymateb i'r
ymgyngoriad hwn. A fyddwch gystal â
chyflwyno eich sylwadau i mi erbyn 11 Awst
2012.Gallwch weld y Safonau drafft ac ymateb i'r
ymgyngoriad ar wefan y Comisiynydd
<http://www.comisiynyddygyymraeg.org/> neu
mae croeso i chi gysylltu ac fe yrwrn gopi
papur atoch 0845 6033 221 neu
post@comisiynyddygyymraeg.orgYr eiddoch yn gywir
Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg**Annwyl Olygydd,**Mae Cymdeithas Ddathlu Allen Raine newydd
lansio ei chystadleuaeth stori fer flynyddol - y
bumed ers i'r gymdeithas cael ei ffurfio ym
2008. Byddwn yn ddiolchgar iawn petaech
chi'n gallu tynnu sylw eich darllenwyr i'r
gystadleuaeth, a'u hannog nhw i gystadlu.
Llyncedd, roeddwn yn falch iawn i weld
cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau
Cymraeg, ac yr oedd y beirniad, Emyr
Llywelyn yn hapus iawn o weld safon uchel y
gwaith a dderbyniwyd. Enillwyr y
gystadleuaeth Gymraeg y llynedd oedd
Geraint Lewis o Gaerdydd, a Gwen Lasarus o
Gaernarfon.Os y'ch chi am fwy o wybodaeth ynglyn ag
Allen Raine, ewch i'r wefan
www.allenraine.com neu cysylltwch a fi ar y
cyfeiriad e-bost uchod neu ar
edares@gmail.com.Yn gywir,
Carol Byrne Jones (Ysgrifennydd
Cymdeithas Ddathlu Allen Raine)**Cymdeithas Enwau
Lleoedd Cymru**Eleni mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
(CELIC) yn cynnal ei chynhadledd flynyddol
yng Nghaerdydd ar 6 Hydref 2012. Rhai o'r
pynciau dan sylw fydd: Enwau Cymraeg ym
Mhatagonia; Patrymau enwi caeau ar Fapiau'r
Degwm; Yr adnoddau ar gyfer astudio enwau
lleoedd yn Archifau Morgannwg; Enwau
Lleoedd y Sipsiwn; cofnodi enwau'n ddigidol.
Agorir y gynhadledd gan Meri Huws,
Comisiynydd y Gymraeg.Ysgolhaig a fu'n datgloi cyfrinachau enwau
lleoedd Sir Forgannwg yw'r Athro Gwynedd
Pierce. Fe ddethlir ei gyfraniad yng
nghynhadledd eleni a'i groesawu'n Llywydd
er Anrhydedd y Gymdeithas.
Cynhelir y gynhadledd yn adeilad newydd
Archifau Morgannwg yn Lecwydd, Caerdydd.
Mae digonedd o leoedd parcio. Bydd croeso
cynnes yno i bawb. Cewch fanylion pellach ar
wefan y Gymdeithas:
www.cymdeithasenuwauleoedd.cymru.orgCost y gynhadledd yw £20 i aelodau CELIC
(£25 i craill) a fydd yn cynnwys cinio te/coffi.
Mae adnoddau cynadleda'r Archifau yn
golygu y gallwn ddarparu ar gyfer 80 o
gynadleddwyr yn unig.Ddwywaith y flwyddyn mae Cymdeithas
Enwau Lleoedd Cymru yn cyhoeddi
Cylchlythyr a fydd o ddiddordeb i gyfeillion â
chanddynt ddiddordeb ym maes enwau
lleoedd. Ceir manylion ymaelodi ar wefan y
Gymdeithas neu gellir cysylltu ag Angharad
Fychan: angharad.fychan@googlemail.com i
gofrestru ar gyfer Cynhadledd Hydref 2012.Wedi ymaelodi â CELIC byddwch yn derbyn
eich copi o'r Cylchlythyr yn rhad ac am ddim.**L. Sturrs
a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda**

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

lsturrs@googlemail.com**D. E. HUGHES
a'i feibion****YMGYMERWYR ADEILADAU
Gardd Eden, Stryd Fawr,
Rachub, LL57 3HF**Ffôn a Ffacs 01248 602010
Symudol 077962 44765

Tîm Gymnasteg Plas Ffrancon wedi ennill Cystadleuaeth Gymnasteg Canolfannau Hamdden Gwynedd

Bu 35 o blant sy'n cymryd rhan mewn gwersi yn y ganolfan, yn cystadlu yng nghystadleuaeth Gymnasteg Canolfannau Hamdden Gwynedd ym Mhlas Silyn, Penygroes, Dydd Sadwrn 30ain Mehefin.

Dyweddodd Elaine Roberts, un o hyfforddwr Plas Ffrancon, fod safon y plant i gyd yn sefyll allan ar y diwrnod a fod pawb wedi rhoi o'u gorau i'r gystadleuaeth. Roeddynt yn cystadlu yn erbyn canolfannau Plas Silyn Penygroes, Glaslyn Porthmadog, Caernarfon a Brynrefail, a gwnaethant yn dda iawn i ennill y cystadleuaeth

Dyma'r enillwyr:

Grwp A Genethod: Lola Freeman (Aur) **Bechgyn:** Shaun Osian Hughes (Arian) **Grwp B Genethod** Sophie Jeffreycy (Arian) **Bechgyn:** Luke Pipe (Aur), Stanley Freeman (Efydd) **Grwp C Genethod** Katie Pipe (Aur) **Bechgyn:** Eric Pitts (Aur), Rhys Cohen (Arian) **Grwp D Genethod:** Sophie Ann Williams (Aur), Llinos Elin Roberts (Arian), Chloe Owen (Efydd) **Grwp E Genethod:** Belle Owen (Arian), Mika Owen (Efydd) **Grwp F Genethod:** Ffion Parry (Aur), Sophie Pipe/ Nia George (Arian)



Plant Plas Ffrancon oedd yn cystadlu yn grwpiau E ac F, gydag Elaine Roberts a'r darian.

“Y Collwyr Mwyaf”

Daeth her colli pwysa' Plas Ffrancon i ben mis diwethaf gyda Rhian Jones o Hen barc yn ennill y sialens ac yn derbyn ei harian yn ôl, aelodaeth am ddim a pas mis am ddim. Roedd Rhian wedi colli pwysau yn gyson yn ystod yr 8 wythnos ac yn y diwedd wedi colli dros 5% o'i phwysau corff. Da iawn hefyd i Yvonne Dignam a gollodd y mwyaf o bwysau ac a ddaeth yn ail agos.

Collodd y grŵp dros 2 stôn rhyngddynt, a 41 modfedd oddi ar eu cyrff! Hoffai'r rheolwr ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y sialens a'r staff am eu gwaith caled. Rydym yn gobcithio cychwyn sialens arall yn fuan - fydd yn galetach na'r tro diwethaf! - Os oes gennych diddordeb ymuno cysylltwch â'r ganolfan ar 01248 601515.



Yn y llun: Angharad Efans (3ydd), Siân Williams, Susan Roberts, Bethan Moore, Rhian Jones (1aft) ac Yvonne Dignam (2ail)

Pesda Roc Awst 22-26 2012

22 TALWRN
nos Fercher 7pm
Neuadd Ogwen £5

23 BRWYDR Y BANDIAU
'TLWS LES MORRISON'
gyda gwestai arbennig
nos Iau 7pm
Neuadd Ogwen £5

24 GERAINT JARMAN
SEN SEGUR
nos Wener 8pm
Neuadd Ogwen £10

25 BORE COFFI
bore Sadwrn 10am, Neuadd Ogwen 50c

FFAIR RECORDIAU
dydd Sadwrn 12pm
Neuadd Ogwen am ddim

Cerddoriaeth yn Llys Dafydd ac Tafariadai Pesda
dydd Sadwrn 12pm ymlaen am ddim

STEVE EAVES
9BACH
nos Sadwrn 8pm
Neuadd Ogwen £6

26 NOSON LAWEN
gyda DILWYN MORGAN yn cyflwyno
COR Y PENRHYN
BONCATHOD, HOGIAU'R BONC
GWENLLIAN JONES
nos Sul 7pm
Neuadd Ogwen £5

Tocynnau sadwrn.com
Siop Kath Pesda,
Palas Print Caernarfon a Bangor
Am fwy o wybodaeth ymunwch a:
facebook a twitter Pesda Roc

Mwy yw gyhoeddi



Hysbysebwrch eich gweithgareddau yn Llais Ogwan

Pesda Roc yn cyflwyno

Lleuwen

gyda pryd o fwyd wedi'w baratoi gan Caffi Coed-y-Brenin

nos wener Awst 3ydd 7pm
Neuadd Ogwen
Bethesda

Tocyn £10
o Siop Kath
Pesda